# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E-bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Cynllunio a Mynediad |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2024 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones,*
*Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd, Swydd Wag,*
*Swydd Wag.*

# R H A G L E N


**Rhifau Tudalen**

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.

2. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

3. **Cofnodion** **3 - 7**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2024 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.

4. **Gorchymyn Gwarchod Coed 83 – Coed Penmaen, Talsarnau** **8 - 25**
Cyflwyno adroddiad gan Swyddog Coed a Choetiroedd (Copi yma)

5. **Diweddariad ar Lwyth Achosion a Pherfformiad Cydymffurfiaeth** **26 - 44**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cynllunio. (Cydymffurfiaeth) (Copi yma)

6. **Adroddiadau Diweddaru** **45 - 50**
Cyflwyno adroddiadau diweddaru, er gwybodaeth. (Copïau yma)

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd** **51 - 62**
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma)

8. **Penderfyniadau Apél**
(1) Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i wrthod apél gan Mr a Mrs Emlyn a Catrin Roberts yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod rhoi caniatad cynllunio i atgyweirio ac ymestyn tŷ presennol, Ty'r Orsaf, Drws-y-Nant, Rhydymain LL40 2BE. **63 - 65**
(Amgaeir copi o benderfyniad yr Arolygydd – Copi yma)

(2) Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i wrthod apél gan EE Ltd yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod rhoi caniatad cynllunio i osod mast cyfathrebu 35m o uchder gydag antenâu Gwasanaeth Ardal Estynedig (EAS) a Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN), cyfarpar ar y ddaear a datblygiad ategol, Tir yng Nghoed Bryn Engan, Capel Curig LL24 0EL **66 - 70**
(Amgaeir copi o benderfyniad yr Arolygydd – Copi yma)

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 16 Hydref 2024

Y Cynghorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

***PRESENNOL:***

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Elfed Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Ifor Glyn Lloyd;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd.

**Swyddogion**
G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Elliw Owen, Sion Roberts, Jane Jones, Dafydd Thomas, Eva Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr Tim Jones, Iona Roberts.

2. **Datgan Diddordeb**
Datganodd y Cynghorydd Elfed Roberts fuddiant personol a rhagfarnol yn Eitemau
   - 5.3 (NP5/73/LB208B – Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith allanol a mewnol gan gynnwys gosod drysau allanol newydd a ffenestri gwydr dwbl tenau newydd, gosod ffenestri to cefn newydd a gwaith mewnol gan gynnwys ail blastro waliau a nenfydau, ail osod arwynebedd llawr gwaelod solet ac ail osod unedau cegin) a
   - 5.4 (NP5/73/LB208C – Cais ôl-weithredol i gadw sied ardd a storfa goed, ail adeiladu wal gynnal bresennol a waliau cerrig ychwanegol, ardaloedd decin pren yn yr ochr a'r cefn a phafin ac ail osod ffenestri to ar y llethr cefn.)

   ar y Rhaglen o dan baragraffau 10 (2)(c)(i) a 12 (1) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau, a gadawodd y cyfarfod tra'r oedd y materion yma'n cael eu trafod.

3 **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fedi 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:
Cafwyd diweddariad ar ddau gwestiwn a oedd wedi eu codi yng nghyfarfod 4ydd o Fedi gan yr Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu, sef:

- *Wern y Pistyll, Bontddu* (NP5/65/L302D)
  Roedd y cais wedi ei wrthod ac roedd wedi ei dynnu o'r rhestr o achosion o dan Cytundebau Adran 106. Dywedodd fod cyfarfod gyda'r ymgeisydd i drafod y ffordd ymlaen wedi ei drefnu.
- *Arosfa, Ffordd Capel, Dyffryn Ardudwy* (NP5/58/263B)
  Roedd dryswch oherwydd fod y wefan yn awgrymu penderfyniad gwahanol i'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig. Dywedodd y Swyddog Cynllunio mai'r wefan oedd yn gywir a bod cais diweddarach wedi dod i law, un oedd yn amrywio o'r un gwreiddiol, a bod y cais hwnnw wedi ei gymeradwyo.

4. **Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023-2024**

***Cyflwynwyd***: – adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio ar Gynllun Datblygu Lleol Eryri ar gyfer 2023-24. Eglurodd mai pwrpas cyflwyno'r adroddiad oedd i'r Aelodau drafod a chymeradwyo ei gynnwys cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
Nododd yr Uwch Swyddog Cynllunio (Polisi) brif canfyddiadau'r adroddiad a nodwyd y camau nesaf gan y Pennaeth Polisi Cynllunio.
Diolchwyd i'r Swyddogion a chafwyd trafodaeth ar yr adroddiad gan yr Aelodau lle gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:

- Datganwyd pryder fod y nifer o dai fforddiadwy a ddatblygwyd yn is na'r targed. Diffyg tir oedd y broblem. Roedd angen mwy nag "adolygu polisi".
  Cytunwyd ei fod yn bryder a bod angen arian ychwanegol ar leoedd gwledig gan nad oeddynt yn lleoedd deniadol yn ariannol i gymdeithasau tai. Byddai adolygiad y Cynllun y flwyddyn nesaf yn gyfle da i edrych ar y mater hwn.
- Nodwyd y pwysigrwydd o gael y gymuned leol i arwain y broses o ddatblygu tai a bod yn rhaid cydweddu'r mannau i'w datblygu gyda'r angen lleol. Rhaid oedd ystyried sut mae'r ddau beth yn rhyngweithio a chreu polisïau sy'n hybu adeiladaeth tai wedi ei arwain gan y gymuned yng ngoleuni hynny.
- Dywedwyd bod yna Grant Tai Cymdeithasol i'w gael gan Lywodraeth Cymru a holwyd faint o ddefnydd oedd yn cael ei wneud o'r grantiau yma gan yr Awdurdod a chymdeithasau tai.
  Eglurwyd nad lle'r Awdurdod oedd cyflwyno cais am grantiau o'r fath ond bod yr Awdurdod yn eistedd ar y grŵp oedd yn cynnwys yr awdurdodau tai a'r cymdeithasau tai, ac a oedd yn dosbarthu'r arian grant; y pryder oedd nad oedd y grantiau'n cael eu rhoi i ardaloedd mwy gwledig.
- Dywedwyd bod rhaid cael gwaith yn yr ardal i ddenu pobl i aros yn yr ardal.

***Argymhellwyd***: cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023-24

***Penderfynwyd***: derbyn yr Argymhelliad

5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**

***Cyflwynwyd:*** – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio.
Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

6. **Adroddiadau Diweddaru**

**6.1** ***Cyflwynwyd:*** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

**6.2** ***Cyflwynwyd:*** – Adroddiadau diweddaru gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.
Holwyd am:

- NP5/50/647B – Llwybr troed rhwng Tywyn ac Aberdyfi
  Dywedodd yr Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu y byddai'n trafod y mater gyda'r Swyddog Achos ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor nesaf.
- NP3/12/126C – Trosi a newid defnydd arfaethedig o allandai gwledig i 3 uned gwyliau i'w gosod
  Dywedodd yr Uwch Swyddog Cynllunio – Rheolaeth Datblygu fod yr oedi yn yr achos oherwydd salwch y Swyddog Achos.

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

**Cyflwynwyd** – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.50**

## ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 16 HYDREF 2024

**Rhif yr Eitem.**

5. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**

(5.1) NP5/53/598C – Cais Amlinellol gyda'r materion i gyd wedi'u cadw'n ôl i adeiladu un tŷ (Ail-gyflwyniad yn dilyn gwrthod cais cynllunio NP5/53/598B), Tir ger Ffynnon Beuno, Y Bala.

***Adroddwyd:*** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad, y cefndir a'r asesiad cynllunio. Hysbyswyd yr Aelodau

- bod y cais blaenorol (NP5/53/598B) wedi cael ei wrthod oherwydd ystyriwyd nad oedd y datblygiad yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos ac ar sail gwybodaeth annigonol a gyflwynwyd i benderfynu a fyddai'r effaith yn cael effaith dderbyniol ar nodweddion pwysig ecolegol;
- bod y cynllun diwygiedig o fyngalo faint cymedrol ar y safle yn unol â Pholisi Datblygu 1 – Cyffredinol Egwyddorion Datblygu'r CDLIE gan fod y datblygiad yn gydymdeimladol ac yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos.
- bod yr asiant wedi darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â materion ecolegol sy'n dangos nad yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth a rhywogaethau a warchodir ar y safle, tra hefyd yn cynnig mesurau lliniaru a mesurau gwella bioamrywiaeth.

***Argymhellwyd:*** – rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

- bod y datblygiad yn dechrau naill ai cyn diwedd pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn neu cyn diwedd dwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r olaf o'r materion a gadwyd yn ôl, pa un bynnag sydd hwyraf;
- bod yn rhaid i unrhyw gais am gymeradwyo'r materion a gadwyd yn ôl gael ei wneud i'r awdurdod cynllunio lleol ddim hwyrach na thair blynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

***Penderfynwyd:*** – rhoi caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

(5.2) NP5/65/256A – Cais i ddymchwel rhan o hen Westy Neuadd Bontddu a chodi 8 annedd ar y farchnad agored a 5 annedd fforddiadwy a fydd yn cael eu lletya o fewn y cabanau gwyliau presennol (3 uned), 1 o fewn y llawr gwaelod isaf ac 1 yn annedd y cyn-reolwr.

***Adroddwyd:*** – bod yr ymgeisydd wedi gofyn gohirio'r penderfyniad i allu trafod ymhellach gyda'r Swyddog Achos.

***Argymhellwyd:*** – bod yr Aelodau yn gohirio'r penderfyniad i'r cyfarfod nesaf i alluogi'r Swyddog Achos gael trafodaethau pellach gyda'r Ymgeisydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

***Penderfynwyd:*** – derbyn yr Argymhelliad

(5.3 a 5.4) NP5/73/LB208B – Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith allanol a mewnol gan gynnwys gosod drysau allanol newydd a ffenestri gwydr dwbl tenau newydd, gosod ffenestri to cefn newydd a gwaith mewnol gan gynnwys ail blastro waliau a nenfydau, ail osod arwynebedd llawr gwaelod solet ac ail osod unedau cegin.

NP5/73/LB208C – Cais ôl-weithredol i gadw sied ardd a storfa goed, ail adeiladu wal gynnal bresennol a waliau cerrig ychwanegol, ardaloedd decin pren yn yr ochr a'r cefn a phafin ac ail osod ffenestri to ar y llethr cefn.

Gadawodd y Cynghorydd Elfed Roberts yr ystafell ar gyfer Eitemau 5.3 a 5.4

Cyflwynwyd a chroesawyd Eva Jones, Swyddog Cynllunio Cadwraeth Adeiledig y Parc i'r cyfarfod ar gyflwyno ei ceisiadau cyntaf fel Swyddog Achos.

Nododd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y tebygrwydd rhwng ceisiadau 5.3 a 5.4 ac y byddai'n gyfleus trin y ddau gais fel un eitem.

***Argymhellwyd***: – Trin y cais cynllunio a'r cais adeilad rhestredig yma fel un eitem

***Penderfynwyd***: – derbyn yr Argymhelliad

Nodwyd hefyd bod enw'r ymgeisydd wedi ei nodi'n anghywir yn y rhaglen o dan cais NP5/73/LB208B, ac mai Aron Roberts oedd yr enw cywir.

***Adroddwyd:*** – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad, y cefndir a'r asesiad cynllunio. Hysbyswyd yr Aelodau:

- bod y cais wedi ei adrodd i'r Pwyllgor am fod yr ymgeisydd yn berthynas i Aelod o'r Awdurdod
- nad oedd y newidiadau a wnaed yn niweidiol
- bod resymau teg i wneud y newidiadau (diogelwch rhag yr elfennau)
- bod yr ymgeisydd wedi cael gwared o'r canopi
- nad oedd lliw'r decin yn andwyol

***Argymhellwyd:*** – **rhoi** caniatâd gydag amodau:

- Cydymffurfio â'r cynlluniau a gymeradwywyd
- Hindreuliad naturiol y ffensys pren a'r decin
- Gwella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd
- Plannu Sgrin ar gyfer yr Ardal Decin.

***Penderfynwyd:*** – derbyn yr Argymhelliad

**EITEM RHIF 4**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Cynllunio a Mynediad |
| **DYDDIAD** | 4 Rhagfyr 2024 |
| **TEITL** | **GCC – PCE 83 (COED PENMAEN, TALSARNAU)** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Coed a Choetiroedd |
| **DIBEN** | I gadarnhau'r Gorchymyn Gwarchod Coed hwn |

## CEFNDIR

Roedd trigolion lleol Talsarnau yn pryderu bod prydles coetir leol wedi cael ei brynu gan Woodlands.co.uk gyda'r bwriad o rannu'r coetir yn eiddo bach lluosog. Roedd pryderon hefyd ynghylch gwaith peirianneg sydd eisoes wedi'i wneud cyn y GCC, ac a oes angen cynllunio ar gyfer y gwaith hwn ai peidio, ac mae'r Awdurdod yn ymchwilio i hyn ar hyn o bryd. Ceir llun o'r awyr, Cynllun Safle a Chrynodeb o'r llythyr Gwrthwynebu a'r Cynllun Rheolaeth yng nghefn [Atodiad] y ddogfen hon). Mae'r coetir hwn yn deilwng o'r GCC a rhoddwyd gorchymyn dros dro ar waith ym mis Medi 2024.

## MANYLION Y GCC

Mae'r Awdurdod wedi gwneud y gorchymyn hwn i ddiogelu coetir cymysgedd amlwg (y mae rhan ohono'n Safle Coetir Hynafol) sy'n edrych dros Aber y Ddwyryd a Bae Tremadog. Mae lleoliad y coetir ychydig i'r gogledd o Harlech gerllaw Tŷ ac Ystad Glyn Cywarch. Mae'r coetir yn cynnwys cymysgedd o oedran / rhywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau brodorol ac anfrodorol, ar dir cymedrol i serth.


Gerllaw, mae'r coetir i'w weld yn glir o ffyrdd cyfagos y cyngor A496 a'r B4573, a phentref Ynys a thref Harlech yn enwedig o ardal o amgylch y castell. O bell, mae'r coetir i'w weld o Bortmeirion a Borth y Gest, ill dau wedi'u lleoli ar draws Aber y Ddwyryd. Mae creu'r GCC newydd hwn yn sicrhau y bydd gan y coetir a nodwyd gyfraniad gwerthfawr at amwynder gweledol yr ardal hon o Harlech ac Eryri am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae un llythyr yn gwrthwynebu'r GCC ar ffeil o fewn y cyfnod gwrthwynebu penodedig. Mae'r gwrthwynebiad yn golygu bod cadarnhad o'r GCC bellach yn cael ei drosglwyddo i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried.
**Argymhelliad: cymeradwyo'r GCC.**

Golygfa o'r awyr o'r ardal (gyda'r saeth goch yn dangos lleoliad y coetir)




Lleoliad



Mae'r prif wrthwynebiadau yn y llythyr amgaeedig gan y prif berchennog tir Woodlands.co.uk, ac mae'r gwrthwynebiadau yn bennaf ar sail Rheoli Coetir / Diogelwch Coed, ac nid am resymau amwynder (mae fy sylwadau wediu cynnwys yn y cromfachau) :

1. Bydd y GCC yn groes i'r ffocws ar adfer Coetir Hynafol – (*RhR – Mae hwn yn gamsyniad ynghylch GCC yn gyffredinol ac fel Awdurdod rydym yn cefnogi coetiroedd wedi'i rheoli'n dda yn y Parc Cenedlaethol yn gyffredinol, ac mae croeso mawr i adfer coetiroedd hynafol. Yn anffodus, un o amcanion allweddol woodlands.co.uk, fel y rhestrir ar eu gwefan yw "lledaenu perchnogaeth coetiroedd yn ehangach fel y gall mwy o bobl fwynhau Coetiroedd Prydain fel perchnogion a chymryd rhan yn eu rheoli a'u gwarchod", ac unwaith y bydd y coetiroedd yn cael eu 'lotio' a'u gwerthu i berchnogion newydd nid oes rheolaeth ar sut mae'r ardaloedd llai hyn o goetir yn cael eu rheoli. Mae gennym bryderon ynghylch rheoli llawer o safleoedd coetir sydd wedi cael eu gwerthu ymlaen ar sail ar hap a darniog, sy'n creu anhawster wrth ddatblygu strategaeth gydlynol ar raddfa strategol.*

2. Pryderon Diogelwch Coed – yn enwedig delio â Chlwy'r Coed Ynn (*RhR – Os bernir bod y goeden yn beryg gan arbenigwr garddwriaethol neu goedwigwr sy'n meddu ar y cymwysterau priodol, yna nid yw GCC yn atal gwaith coed er mwyn mynd i'r afael â choed peryglus, yr unig wahaniaeth yw bod angen gofyn am ganiatâd ymlaen llaw).*

3. *Disgrifir conwydd a rhywogaethau estron yn Atodlen 1 y GCC – (RhR - Os oes bwriad gwirioneddol i adfer safle coetir hynafol yn ôl i goetir brodorol yna byddem yn croesawu hyn, a gellir ymgorffori hyn mewn Cynllun Rheoli Coetir manwl. Os caiff y rhai nad ydynt yn frodorol eu dileu yn y blynyddoedd i ddod, yna gellir addasu'r GCC i gymryd y newid hwn i ystyriaeth. Dylid nodi hefyd bod Pinwydd Albanaidd yn gonwydd brodorol a gallai fod yn elfen werthfawr o'r coetir yn y tymor hir).*

4. *Cyfeirir at Strategaeth Coetiroedd i Gymru* (*RhR – rydym yn croesawu'r ffaith y cyfeirir at hwn ac unwaith eto nid yw GCC yn rhwystro rheoli coetiroedd mewn modd gadarnhaol; ac wrth symud ymlaen "**i gyrraedd y safon uchaf o Stiwardiaeth Amgylcheddol**" byddem yn disgwyl cynllun rheoli llawer gwell a manwl ar gyfer rheoli'r coetir na'r cynllun a gyflwynwyd ar gyfer unrhyw waith rheoli, boed hynny o woodlands.co.uk neu unrhyw ddarpar berchnogion newydd. Byddai'r Awdurdod yn croesawu i holl safleoedd presennol a chyn-safleoedd Woodlands.co.uk i gael eu hardystio gan UKWAS)*

WOODLANDS FOR SALE
woodlands.co.uk

woodlands.co.uk
19 Half Moon Lane London SE24 9JU
Local Area Managers for North Wales and the Welsh Marches
ashandhelen@woodlands.co.uk
Ashley Charlwood 07817761125
Helen Iles 07901718474

SWYDDFA PARC CENEDLAETHOL
-9 OCT 2024
NATIONAL PARK OFFICE
REF ______ ACK ______

1 October 2024

**RE:- Tree Preservation Order (No 83) 2024**

To whom it may concern,

I write in relation to the above TPO received by me as an agent for the owner on 12 September 2024. It is noted that the TPO applies to a woodland wider than our ownership.

The owners are wholly supportive of the broad intention of the TPO on the woodland, and reference the enclosed Management Plan.

This response relates to the woodland defined in map W01 which is in our ownership (see enclosed map: we do not own the area marked in red). We note that the TPO does not apply to all the woodland of which W01 is a part thereof.

The management of the woodland prior to woodlands.co.uk ownership was not in line with the leasehold with regards to the clear-felling of areas of the site. Since woodlands.co.ok ownership they have planted in excess of 1000 sessile oaks to help re-balance some of the extensive natural regeneration.

Woodlands.co.uk feel that the blanket TPO will be contradictory to the focus of restoration of an Ancient Woodland. The birch pioneer species is vigorous and has already begun to swamp the other desirable broadleaves in this area. Along with poorly managed Ash trees, the woodland now contains a large number of dangerous Ash trees infected with Chalara which also threaten the surrounding trees, as well as the tracks within the woodland.

Woodlands.co.uk would like to focus on the protection of mature trees and canopy which requires selective vegetation control (e.g. halo thinning) and migration from conifer to broadleaf. There are also safety priorities alongside the road for Chalara which require preventative maintenance that are adversely affected by this TPO.

As presented in schedule 1 "Mixed Broadleaved and Conifer Species Woodland – of all Age Classes, and all native and non-native species" does not help the woodland contribute to the Restored Ancient Woodland status, nor the transfer of a Plantation on an Ancient Woodland as noted on the Ancient Woodland Inventory (2021). Indeed, arguably Schedule 1 is detrimental to the "Woodlands for Wales Strategy (2018)" Published by Welsh Government. As presented TPO (no 83) does not contribute to, and in places actively detracts from some of the stated goals of the strategy;

- 2.3 – Woodlands are healthy and resilient.
- 2.5 – The management of woodland and trees is more closely related to other land uses


Estate Manager: Richard Scholfield
Woodland Investment Management Ltd
Director: Angus Hanton
Registered no. 1705939

4 – Woodlands for People (all clauses)
6.1 – Woodland management achieves high standards of environmental stewardship
6.4 – Woodland biodiversity is supportive and native woodland is in favourable management

woodlands.co.uk understand, fully, the use of the TPO as a precautionary measure in the face of some of the recent activities within the area defined as W01.

While Woodlands.co.uk understands the desire to protect the visual appearance of the environment, as seen from Harlech, Portmeirion, and so forth, limiting our ability to manage the safety of trees with ash dieback, selectively control the vigorous natural birch regen, and favour preferred species, such as oak, rather than focusing on mature trees and preservation of the canopy, does not seem to be an appropriate level of control.


For the reasons listed above woodlands.co.uk object to the Tree Preservation Order (no 83).

Yours faithfully,

Ashley Charlwood
On behalf of woodlands.co.uk


Woodland Investment Management Ltd
Estate Manager: Richard Scholfield Director: Angus Hanton Registered no. 1705939

## Gorchymyn Cadw Coed / Tree Preservation Order
## Rhif / No. SNP083




**Safle / Site: Coed Penmaen, Talsarnau**

Cyf. Grid Ref.: SH [illegible] 339

- Gorchymyn Unigol / Individual Order
- Gorchymyn Ardal / Area Order
- Gorchymyn Grwp / Group Order
- Gorchymyn Coedlan / Woodland Order

**Graddfa / Scale: 1:7,500**

© Hawlfraint y Goron 2024 AO AC0000825604
© Crown copyright 2024 OS AC0000825604
Hawlfraint Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
Copyright Snowdonia National Park.

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
**The Town and Country Planning Act 1990**

# Woodland Management Plan: Coed Penmaen

SWYDDFA PARC CENEDLAETHOL
-9 OCT 2024
NATIONAL PARK OFFICE
REF ______ ACK ______

| | |
|---|---|
| Date (from/to) | 2024-2029 |
| Date of last review [UKWAS 2.1.3] | n/a |
| Owner/tenant | Woodland Investment Management Ltd |
| Agent/contact | Chris Colley |

# 1 Background information

## 1.1 Location

| | |
|---|---|
| Nearest town, village or feature | Talsarnau, Gwynedd |
| Grid reference | SH607 337 |
| Total area (ha) | 40 |

## 1.2 Description of the woodland(s) in the landscape

Coed Penmaen is a woodland between 10m and 140m ASL adjacent to the Dwyryd Estuary. It is within Parc Eryri.

## 1.3 History of Management

Coed Penmaen is designated by the Countryside Council for Wales as Ancient and Semi-natural Woodland (ASNW) as shown on the Natural Resources Wales Land Information Search map. This designation indicates the land has been under continuous mainly broadleaved tree cover since at least 1600 AD.

In 1954, the Forestry Commission acquired a 999 year lease for the woodland.

The woodlands had significant felling of Japanese Cedar, Scot Pine, Corsican Pine and Southern Beech. under a licence issued in 2014-15 since which the area has been regenerated via some replanting, but vigorous natural regeneration proliferates. This was outside the terms of the lease and has impacted the structure of the wood.

A lack of good management in the last 20 years has led to Ash trees with die back.

A recent sporting shoot (during 2020-2022) cut a pond in the northern section of the wood to rear ducks.

# 2 Woodland Information

## 2.1 Areas and features

| **Designated Areas** | **Map No.** | **In Woodland** | **Adjacent to woodland** |
|---|---|---|---|
| Special areas for conservation (SACs) | | - | - |
| Special Protection Areas (SPAs) | | - | - |
| Ramsar Sites (see note on Guidance) | | - | - |
| National Nature Reserves (NNRs) | | - | - |
| Sites of Special Scientific Interest (SSSIs) | | - | - |
| Other designations (e.g. National Park (NP) / World Heritage Site) | | National Park | |
| Areas of Outstanding Natural Beauty (AONBs) | | - | - |
| Local Nature Reserves (LNRs) | | - | - |
| TPO / Conservation Area (CA) | | - | - |
| Details | | | |

| **Rare and important species** | **Map No.** | **In Woodland** | **Adjacent to woodland** |
|---|---|---|---|
| Red Data Book or BAP species | | | |
| Rare, threatened, EPS or SAP species | | | Bat and Otter |
| Details | | | |

| **Habitats** | **Map No.** | **In Woodland** | **Adjacent to woodland** |
|---|---|---|---|
| Ancient semi-natural woodland (ASNW) | | Yes | |
| Other semi-natural woodland | | | |
| Plantations on ancient woodland sites (PAWS) | | | |
| Semi-natural features in PAWS | | | |
| Woodland margins and hedges | | | |
| Veteran and other notable trees | | | |
| Breeding sites | | | |
| Habitats of notable species | | | |
| Unimproved grasslands | | | |
| Rides and open ground | | | |
| Valuable wildlife communities | | | |
| Feeding area | | | |
| Lowland heath | | | |
| Peatlands | | | |
| Others | | | |
| Details | | | |

| **Water** | **Map No.** | **In Woodland** | **Adjacent to woodland** |
|---|---|---|---|
| Watercourses | | Yes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lakes | | No | |
| Ponds | | No | |
| Wetland habitats | | No | |
| Details | | | |

| Landscape | Map No. | In Woodland | Adjacent to woodland |
|---|---|---|---|
| Landscape designated areas | | | |
| Landscape features | | | |
| Rock exposures | | | |
| Historic landscapes | | | |
| Areas of the woodland prominent from roads | | | |
| Areas of the woodland prominent from settlements | | | |
| Details | | | |

| Cultural features | Map No. | In Woodland | Adjacent to woodland |
|---|---|---|---|
| Public rights of way | | | |
| Prominent viewing points | | | |
| Existing permissive footpaths | | - | - |
| Proposed permissive footpaths | | - | - |
| Areas managed with traditional management systems | | - | - |
| Details | | | |

| Archaeological Features | Map No. | In Woodland | Adjacent to woodland |
|---|---|---|---|
| Scheduled monument | | Yes | |
| Historical feature (Inc. designed landscapes, registered parks and gardens) | | Yes | |
| Other | | | |
| Details | | | |

## 2.2 Woodland resource characteristics

Species composition:
The primary species are Birch, Ash, Beech and Sessile Oak.

Age structure:
Old broadleafs are 50+ years old, regeneration is less than 10 years.

Timber quality:

Not assessed, Ash dieback is prevalent, young trees are being obscured by natural growth

## 2.3 Site description

On a west facing slope, approximately 10-140m above sea level, with views of the Eryri and the Glaslyn/Dwyrd estuary. Mostly gently to steeply sloping.

## 2.4 Significant hazards, constraints and threats

1. Access – There is a reasonable vehicular access to the wood. There is an internal track through the wood. Accessibility of the woodland remains a challenge in terms of managing the woodland, extracting timber or amenity use.
2. Tree pests and diseases – there are a number of pests and diseases affecting forest trees in the UK at present. Phytophthora Ramorum is most likely to affect the larch trees in this woodland, but it is not known to be infected, yet. The small quantity of ash trees are also susceptible to Ash Dieback (Chalara), and pose a particular threat to safety where located along the main internal access track.
3. Rhododendron – there are localised pockets of rhododendron in the wood. During 2023 work with Parc Eryri to stem inject was undertaken.
4. Knotweed is entering the woodland from the north in the water course.

# 3 Long term vision, management objectives and strategy

## 3.1 Long term vision

As a Plantation on an Ancient Woodland Site, the long term aim is to migrate towards a Restore Ancient Woodland designation, by gradual removal of the remaining conifers, and replacement with native broadleaves.

## 3.2 Management Objectives

1. Conservation and promotion of biodiversity.
2. Remove invasive species
3. Low impact/small scale sustainable timber production, especially coppicing and firewood.
4. Preservation of any historical features.

## 3.3 Strategy

1. Manage Birch regeneration to encourage vigorous growth of other species, and to enable access for management and amenity purposes.
2. Remove Chalara affected Ash Trees where they pose a threat to the internal track. Some wood to be left for ecology purposes.
3. Consider a felling licence of the remaining stand of coniferous wood (only to be contemplated when the Knotweed is removed.

# 4 Management prescriptions/operations – 2024-2029

## 4.1 Silvicultural systems

### 4.1.1 Harvesting

Clearfelling:
None planned within this plan period (unless under an SPHN-Statutory Plant Health Notice)

Thinning:
Selective thinning of Birch (under 100mm), especially halo thinning around any mature broadleaf trees.

Coppicing:
The naturally regenerated areas would benefit from coppicing and thinning.

### 4.1.2 Phased felling and restructuring of plantations

No plans, unless required under an SPHN.

### 4.1.3 Establishment, restocking and regeneration

Natural regeneration should meet all requirements, but selective planting to enhance diversity may be applicable in some areas

## 4.2 New planting

Not required to any significant extent

## 4.3 Other operations

(2024/25) :
The work to the existing access tracks will consist of:

1. Cutting back vegetation
2. Renewing or installing any ditches and culverts to ensure that streams are carried across the tracks, and water drains away without damaging the tracks.
3. Localised repair, where required for safe use of the track, using material of acceptable quality extracted on site.
4. Removal of large late phase Chalara affected Ash within 15m of the internal track.

Creation of the new footpaths into the woodland consisting of:

1. Cutting back vegetation, including felling of >100mm birch trees (below the threshold where a Felling Licence is required)
2. Brushcutting of brambles

## 4.4 Protection and maintenance

### 4.4.1 Pest and disease management

1. Encourage the estate to maintain walls (their obligation) to keep grazing to a minimum.
2. Contract a knotweed removal expert.
3. Wider issues – well-managed woodland containing a diverse mixture of species and age classes will be more resilient to existing and new tree pests and diseases.

### 4.4.2 Fire plan

N/A

### 4.4.3 Waste disposal and pollution

As a part of the leasehold, WIML can instigate a no-smoking policy for visitors. This has been done.

Anyone working in the woodland will be expected to limit and remove any waste or pollution caused by operations. Use of biodegradable oil is encouraged. Waste to be disposed of either by licensed waste handler or if non-hazardous plant material by burning, mulching, chipping, or (preferably) creation of brash piles.

### 4.4.4 Protection from unauthorised activities

The existing entrance at the south of the wood is fitted with metal gates. These can't be padlocked due to other rights. Internal gates fitted where permitted to restrict unauthorised vehicle use (noted during 2023 and spring 24).

| 4.4.5 Protection of other identified services and values |
|---|
| |

## 4.5 Game management

| |
|---|
| N/a |

## 4.6 Protecting and enhancing landscape, biodiversity and special features

| 4.6.1 Management of designated areas |
|---|
| N/A |

| 4.6.2 Measures to enhance biodiversity and other special features [UKWAS 2.1.1/6.1.1] |
|---|
| Retain standing and lying deadwood where safe and practical to do so.<br>Thinning, coppicing and opening up rides will help provide the rotational and permanent open space habitat that is so crucially important to invertebrates and woodland birds. |

| 4.6.3 Special measures for ancient semi-natural woodland (ASNW) and semi-natural woodland (SNW) |
|---|
| n/a |

| 4.6.4 Special measures for plantation on ancient woodland site (PAWS) |
|---|
| • See 4.6.2<br>• Avoid damaging and disturbing areas of remnant ancient woodland flora, where identified, and soil profile, by using appropriate machinery and techniques for any future timber harvesting operations.<br>• Cleaning and maintenance of the internal track through the wood.<br>• Avoid any significant amount of Ash removal during the nesting season, where possible, and during wet ground conditions.<br>• Avoid damage to any historical/boundary features.<br>• Encourage natural regeneration of native broadleaf species.<br>• Good practice to manage the opened rides as internal edge habitat and open space through cutting and ride edge coppicing. |

| 4.6.5 Measures to mitigate impacts on landscape and neighbouring land [UKWAS 3.1.2] |
|---|
| The proposed management will have significant long-term benefits to the local environment in terms of enhancing diversity of the woodland, and potentially providing additional foraging areas for species in adjacent designated areas |

## 4.7 Management of social and cultural values

| 4.7.1 Archaeology and sites of cultural interest |
|---|
| Protect ancient woodbanks, dry stone walls, and other cultural features during operations by avoiding use of machinery on these features. Operators, where required, will be briefed and supervised and sites marked to ensure these features are protected. |
| |

| 4.7.2 Public access and impacts on local people |
|---|
| Tree safety needs to be seriously considered, especially in relation to the access track and adjacent highway to the north west, these tracks also serve neighbouring properties. Any immediate tree safety concerns will be addressed while the track improvement works are being undertaken, with the aim of also preventing future issues. A tree safety inspection and report is recommended every year, with remedial work carried out as necessary. |

# 5 Consultation

| Organisation/individual | Date received | Comment | Response/action |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# 6 Monitoring plan summary

| Objective number, issue or UKWAS Requirement | Indicator | Method of assessment | Monitoring period | Responsibility | How will information be used |
|---|---|---|---|---|---|
| Tree health and tree safety | Tree condition | Visual | 3 years | Manager/ Consultant | Report to inform remedial work |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# 7 Work programmes

| Cpt. Ref or Name | Activity | Year *(tick)* | |
|---|---|---|---|
| | | 1-5 | 6-10 |
| A | Clean and carry out maintenance of the existing track | x | |
| B | Coppicing and encouragement of vigorous broadleaf tree growth | x | |
| C | Removal of invasive species | X | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# 8 Costing Operations

Costing not undertaken, as thought to be low value.

# 9 Maps


| Map no./Title | Description |
|---|---|
| | |
| 1 | AWI 2021 |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |
| | |
| | |

# 10 Appendices

| Appendix no. | Description |
|---|---|
| | |
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |
| 5 | |
| 6 | |

# Woodland Management Plan: Coed Penmaen

Map 1: NRW – Ancient Woodland Inventory 2021.



**EITEM RHIF 5.0**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Cynllunio a Mynediad |
| **DYDDIAD** | Rhagfyr 4ydd 2024 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD AR LWYTH ACHOSION A PHERFFORMIAD CYDYMFFURFIAETH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Jane Jones – Uwch Swyddog Cynllunio (Cydymffurfiaeth) |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â llwyth achosion a pherfformiad cydymffurfiaeth |

**1.0 Cefndir**

1.1 Ym mis Mehefin, nododd yr Aelodau adroddiad yn ymwneud â pherfformiad a swyddogaeth gwasanaeth cydymffurfio'r Awdurdod, gydag asesiad parhaus o'r perfformiad i'w adrodd ym Mhwyllgor Rhagfyr 2024.

1.2 Bydd yr adroddiad hwn yn anelu at friffio'r Aelodau ar y sefyllfa bresennol gyda'r swyddogaeth gydymffurfio a bydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag achosion cydymffurfiaeth hirsefydlog, nodedig.

**2.0 Sefyllfa Adnoddau Cyfredol**

2.1 Fel yr adroddwyd ym mis Mehefin, mae Alys Tatum ar hyn o bryd ar gyfnod mamolaeth tan fis Mehefin 2025. Gyda llwyth achos heb ei datrys o 31 achos, mae'r rhain wedi cael eu datblygu gan ymgynghorwyr cynllunio Prospero, Gavin Roberts a Jane Jones. Dim ond 10 achos sy'n weddill gan Alys ar ddiwedd mis Hydref 2024 a'r gobaith yw y bydd y rhain yn cael eu hailddyrannu i Swyddogion eraill yn fuan.

2.2 Oherwydd absenoldeb salwch parhaus o fewn yr adran Rheolaeth Datblygu, mae'r ymgynghorwyr cynllunio Prospero bellach yn gweithio ar geisiadau cynllunio sydd heb eu penderfynu a fydd yn amlwg yn effeithio ar gynnydd y gwaith cydymffurfiaeth. Yn ystod mis Medi/Hydref, mae'r adran gydymffurfiaeth hefyd wedi bod yn cynorthwyo Rheolaeth Datblygu gyda cheisiadau sy'n datblygu.

2.3 Ar ddiwedd mis Hydref 2024, dyma'r llwyth achosion presennol ar gyfer pob swyddog:

Jane Jones – 58 achos

Gavin Roberts – 58 achos

Alys Tatum – 10 achos

Dafydd Thomas – 15 achos (bu'n gweithio fel Swyddog Cydymffurfiaeth cyn symud i Rheolaeth Datblygu)

Prospero – 15 achos

Hefyd, mae yna un neu ddau achos gan Swyddogion eraill o fewn Rheolaeth Datblygu.

2.4 Mae Dafydd Thomas yn parhau i wneud cynnydd da o ran lleihau nifer yr achosion cydymffurfiaeth sy'n parhau i gael eu dyrannu iddo.

**3.0 Ffigurau Achosion Cyfredol**

3.1 Ar 31 Hydref 2024 ar hyn o bryd mae yna **175** o achosion heb eu datrys. Ers mis Mehefin bu gostyngiad bach yn nifer yr achosion heb eu datrys.

3.2 Rhwng 1 Mehefin 2024 a 31 Hydref 2024 rydym wedi derbyn cyfanswm o **31** achosion newydd i'w hymchwilio.

3.3 Rhwng 1 Mehefin 2024 a 31 Hydref 2024 rydym wedi cau **47** Achosion. Trwy gau achos, gall hyn fod oherwydd nad oes unrhyw dor-rheolaeth cynllunio wedi digwydd, bod tor-rheolaeth honedig yn dod o dan hawliau datblygu a ganiateir neu fod y tor-rheolaeth honedig wedi'i ddileu neu ei derfynu neu fod caniatâd cynllunio ôl-weithredol wedi'i roi.

3.4 O ran ceisiadau cynllunio ôl-weithredol, o 1 Mehefin 2024 rydym wedi cynhyrchu **18** cais.

3.5 Mewn perthynas â gweithredu ffurfiol, o 1 Mehefin 2024 tan 31 Hydref rydym wedi cyflwyno **2** Rybudd Gorfodaeth.

3.6 Yn dilyn apêl yn erbyn cyflwyno Rhybudd Adran 215 (tir sy'n effeithio ar amwynder yr ardal) yn nhafarn Machno, Penmachno, mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) wedi cadarnhau'r Rhybudd ond gydag amrywiadau iddo drwy ddileu gofyniad 5 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol bod *'y tir i'w gadw mewn cyflwr da'* a newid gofynion 4 o *'Symud pob sbwriel arall a'r holl ddeunydd gwastraff oddi ar y tir'* i *'Symud yr holl ddeunydd gwastraff o'r tir.'* Felly, daeth y Rhybudd i rym o'r dyddiad penderfyniad yr apêl, sef 31 Gorffennaf 2024 a rhoddwyd tri mis fel y cyfnod i gydymffurfio. Oherwydd materion personol, mae perchennog y tir wedi gofyn am estyniad i'r amser cydymffurfio. Mae hyn wedi cael ei ganiatáu.

3.7 Ar hyn o bryd mae gan yr adran ddwy apêl barhaus, nad ydynt eto wedi'u pennu gan ‘Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC). Mae'r rhain yn ymwneud ag apêl yn erbyn cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth yn ymwneud â charafán deithiol a safle gwersylla pebyll a storio cerbydau a chychod yn Tyn y Pant, Dyffryn Ardudwy ac apêl yn erbyn cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth mewn perthynas â lleoli carafán sefydlog breswyl ar dir ym Mhlas Gwynfryn, Llanbedr.

3.8 Ar y 10fed o Fedi, cynhaliwyd Ymchwiliad Cyhoeddus mewn perthynas â'r apêl yn Tyn y Pant, Dyffryn Ardudwy, gyda'r ymweliad safle yn digwydd ar yr $11^{fed}$ o fis Medi a chyflwyniadau terfynol yn digwydd ar y 12fed o Fedi. Hyd yn hyn, nid oes penderfyniad wedi'i wneud.

## 4.0 Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru

4.1 Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i ddeall dangosyddion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mesur perfformiad cydymffurfiaeth, rwyf wedi darparu manylion sydd wedi ystyried mewn adroddiadau diweddaru blaenorol.

4.2 Mae'r dangosydd cyntaf yn pennu nifer y diwrnodau y mae'n eu cymryd i 'ymchwilio' i achos honedig o dor-rheolaeth cynllunio. Yna mae nifer y diwrnodau yn cael eu cyfrifo ar sail cyfartaledd i ddarparu ffigur canrannol cyffredinol. Mae'r dangosydd hwn yn golygu bod yr Awdurdod wedi ystyried y tor-rheolaeth cynllunio honedig ac wedi cynghori'r achwynydd ynghylch canlyniad yr ymchwiliad. Er enghraifft, cynghorir yr achwynydd fod cais cynllunio ôl-weithredol wedi'i dderbyn neu nad yw'n hwylus dilyn hynt y tor-rheolaeth a ganfuwyd.

4.3 Mae'r ail ddangosydd yn pennu nifer y diwrnodau i gyflawni 'canlyniad cadarnhaol'. Er mwyn cyflawni 'canlyniad cadarnhaol', dylai un o'r canlynol fod wedi digwydd:

- Mae trafodaethau anffurfiol sydd yn dileu'r tor-rheolaeth.
- Rhoddir Rhybudd Gorfodi neu Rybudd / Hysbysiad Ffurfiol arall.
- Rhoddir caniatâd cynllunio wedi hynny drwy gais neu apêl gorfodaeth.
- Mae proses erlyn wedi'i dechrau neu mae camau uniongyrchol yn cael gwared ar y tor-rheolaeth.

4.4 Er mwyn meincnodi'r dangosyddion uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu system goleuadau traffig. Ynglŷn â'r dangosydd a 'ymchwiliwyd':

**GWELLA - mae llai na 70% o achosion yn cael eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod.**

**TEG - mae rhwng 70% ac 80% o achosion yn cael eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod.**

**DA – ymchwilir i 80% neu fwy o achosion o fewn 84 diwrnod.**

4.5 Mewn perthynas â'r dangosydd 'canlyniad cadarnhaol':

**GWELLA – dros 200 diwrnod.**

**TEG – rhwng 101 a 200 diwrnod.**

**DA – O dan 100 diwrnod**

4.6 Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r canlyniadau i'r Aelodau ar gyfer pob chwarter ar gyfer y flwyddyn 2024 i 2025:

| **Ymchwiliwyd** | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** |
|---|---|---|
| Nifer yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt mewn 84 diwrnod neu lai | 16 | 8 |
| Nifer yr achosion yr ymchwiliwyd iddynt mewn mwy na 84 diwrnod | 4 | 5 |
| Cyfanswm yr achosion a ymchwiliwyd | 20 | 13 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfartaledd amser a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodaeth** | 80% (61.6 diwrnod) | 61.5% (88 diwrnod) |

4.7 Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r canlyniad i'r Aelodau ar gyfer pob chwarter mewn perthynas â'r dangosydd 'canlyniadau cadarnhaol':

| | Chwarter 1 | Chwarter 2 |
|---|---|---|
| Cyfartaledd amser a gymerir i gymryd camau gorfodi cadarnhaol | 412 diwrnod | 200 diwrnod |

**5.0 Dangosydd 'Ymchwiliwyd'**

5.1 Ar ôl adolygu'r data perthnasol i'r amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi, mae gwelliant clir yn Chwarter 1, gan fodloni'r meini prawf 'Da'. Er bod hyn yn gostwng yn Chwarter 2 yn ôl i'r meini prawf 'Gwella', mae nifer cyfartalog y diwrnodau yn llawer llai nag yn y flwyddyn flaenorol ac mae

nifer y diwrnodau bellach o dan y meincnod 100 diwrnod. Y llynedd o fewn pob un o'r ddau chwarter hyn, roedd nifer y diwrnodau yn fwy na 100.

5.2 Mae un ffactor pam y disgynnodd y targed 'ymchwiliwyd' yn Chwarter 2, a hynny'n rhannol oherwydd bod y Swyddog Cydymffurfiaeth ar absenoldeb mamolaeth. Hwn hefyd oedd yr adeg pan gyfyngwyd adnoddau i baratoi ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.8. Er gwaethaf hyn, mae gwelliant amlwg yn y nifer cyfartalog cyffredinol o ddiwrnodau a gymerir i ymchwilio i achos ac mae angen i ni geisio sicrhau bod y momentwm hwn yn parhau.

## 6.0 Dangosydd Canlyniadau Cadarnhaol

6.1 Y llynedd, gostyngodd nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gymryd camau cadarnhaol i'r categori 'angen gwella' gyda'r dangosydd Chwarter 4 yn 370 diwrnod.

6.2 Yn y Chwarter cyntaf hwn mae nifer y diwrnodau wedi gostwng ymhellach i 412. Fel yr eglurwyd yn yr adroddiad diwethaf, gall hyn fod oherwydd fe gaewyd achosion hirsefydlog a gymerodd gryn amser i'w datrys.

6.3 Fodd bynnag, mae Chwarter 2 wedi gweld nifer y diwrnodau bron yn gostwng i hanner y nifer, i lawr i 200. Mae'r ffigwr hwn yn dod o fewn y categori 'teg' na chyflawnwyd yn ystod cyfnod 2023 – 2024 ac fe ystyrir ei fod yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn.

## 7.0 Adolygiad i adrodd am achos honedig o dor-rheolaeth cynllunio

7.1 Yn adroddiad diweddaru cydymffurfiaeth mis Mehefin, bydd yr Aelodau'n cofio manylion am sut y cynigiodd yr adran gydymffurfio geisio symleiddio'r ffordd y cyflwynwyd adroddiad am dor-rheolaeth cynllunio drwy greu ffurflen ar-lein i'w llenwi. Trwy sefydlu hyn, y nod fyddai i bob pryder gael ei gynhyrchu drwy'r ffurflen ar-lein ac i beidio â derbyn pryderon bellach drwy e-bost cyffredinol neu dros y ffôn. I'r rhai nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur, byddai pryderon yn dal i gael eu derbyn yn ysgrifenedig.

7.2 Bydd y nod o dderbyn pryderon fel hyn yn unig, yn sicrhau y ceir yr holl wybodaeth berthnasol o'r cychwyn cyntaf. Y bwriad yw diweddaru'r wefan gyda gwybodaeth ddefnyddiol, o ran yr hyn y gall neu na all yr Awdurdod ymchwilio iddo o ran cynllunio tor-rheolaeth cynllunio. Cynigir hefyd i roi'r gorau i dderbyn nac ychwaith ymchwilio i bryderon dienw.

7.3 Trwy gyflwyno'r uchod, rhagwelir y bydd Swyddogion yn cymryd llai o amser gyda dyletswyddau gweinyddol yn agor achosion, oherwydd bydd y manylion eisoes wedi'u darparu drwy'r wefan.

7.4 Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Polisi Cydymffurfio wedi'i ddiweddaru i gynnwys y newidiadau uchod. Mae'r polisi hefyd wedi'i ddiweddaru i gynnwys Rhybuddion / Hysbysiadau Gorfodi ac i ddiweddaru newidiadau enw sefydliadol a manylion cyswllt. Mae'r ddogfen hon wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Gofynnir i aelodau dderbyn y Polisi Cydymffurfio wedi'i ddiweddaru yn ffurfiol.

7.5 Pan dderbynnir y Polisi Cydymffurfio, gall Swyddogion symud ymlaen i ddiweddaru'r wefan a dechrau defnyddio'r ffurflen ar-lein. Y nod fyddai gweithredu hyn ddechrau 2025.

**Hysbysiadau / Rhybuddion Gorfodi**

7.6 Er gwaethaf cynghori ym mis Mehefin y byddem yn anelu at groesawu'r broses Rhybudd Gorfodi; Ni chyflwynwyd rhybudd o'r fath rhwng Mehefin a Hydref. Mae hyn er bod Swyddogion yn ymwybodol yn ystyried defnyddio'r offeryn hwn.

7.7 Yn ddiddorol, mae nifer y ceisiadau cynllunio ôl-weithredol a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod hwn yn ddeunaw, gan awgrymu bod ceisiadau ôl-weithredol yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol ac felly nid yw'n cyfiawnhau'r angen am Hysbysiad / Rybuddion Gorfodi.

**Basdata Cyfrifiadurol Cynllunio – 'Agile'**

7.8 Gan ddefnyddio meddalwedd cynllunio wedi'i diweddaru gan yr Awdurdod, mae Agile yn parhau i ddatblygu.

7.9 Cyfleuster newydd yw cyflwyno 'tabled' y gall Swyddogion fynd ag o hefo nhw ar ymweliadau safle. Mae ceisiadau ar y dabled yn gysylltiedig â'r system Agile lle gall Swyddogion ddiweddaru manylion tra ar y safle. Hefyd, mae hyn yn cynnig y potensial i uwchlwytho ffotograffau a dynnwyd o'r safle yn uniongyrchol i'r ffeil achos berthnasol.

7.10 Mae'r cyfleuster hwn yn ei fabandod cynnar a bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu pan fydd yn gwbl weithredol.

**Hyfforddiant Aelodau**

7.11 Oherwydd y modd y delir â'r Ymchwiliad Cyhoeddus a materion adnoddau yn ystod mis Medi a Hydref, nid yw hyfforddiant Aelodau ar hanfodion gorfodaeth cynllunio wedi digwydd yn 2024 yn ôl y disgwyl. Cynigir y bydd hyn nawr yn digwydd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025.

**8.0 Diweddariad ar Achosion Nodedig**

**Nannau, Llanfachreth**

8.1 Yn yr adroddiad diwethaf, cynghorwyd yr Aelodau fod cwmni wedi'i gomisiynu i ddarparu adroddiad ar y math o waith sydd ei angen ar y to i sicrhau bod wneud yr adeilad yn dal dŵr ac i roi syniad o faint y gallai hyn ei gostio.

8.2 Mae'r adroddiad hwn wedi'i gwblhau ac mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda CADW i drafod y canfyddiadau a'r ffordd orau o fwrw ymlaen. Cytunwyd i ofyn am arweiniad allanol pellach gan ymgynghorydd sy'n ymdrin â materion yn ymwneud ag eiddo gwag fel Nannau. Mae'r Awdurdod yn dal i fod yn y broses

o gysylltu â'r ymgynghorydd hwn i benderfynu os mai cyflwyno Hysbysiad Gwaith Brys yw'r ffordd fwyaf priodol o symud ymlaen.

8.3 Yn ddiweddar mae asiant wedi cysylltu â'r Awdurdod sy'n cynghori eu bod yn gweithredu ar ran y perchennog. Dim ond newydd ddechrau mae’r trafodaethau, ac mae'r Awdurdod wedi awgrymu bod unrhyw gynigion ar gyfer Plas Nannau yn cael eu darparu'n ysgrifenedig er mwyn eu hystyried.

**Glygyrog Ddu, Aberdyfi**

8.4 Ym mis Ebrill 2024, cytunodd yr Aelodau gydag argymhelliad y Swyddogion i wrthod cais am addasiadau helaeth yn Glygyrog Ddu a oedd yn cynnwys estyniad ochr unllawr / rhannol deulawr gan gynnwys ardaloedd balconi/teras, estyniad cefn deulawr, porth blaen, newidiadau i do annedd sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys gosod 3 o oleuadau to a gwaith cysylltiedig.

8.5 Aeth yr Awdurdod ymlaen i ddechrau ar gamau ffurfiol lle cyflwynwyd Hysbysiad Gorfodi ar 12 Mehefin 2024. Gofynion y Rhybudd / Hysbysiad oedd dileu'r rhan estyniadau unllawr / rhan dau lawr yn barhaol gan gynnwys ardaloedd balconi/teras, a'r estyniad cefn deulawr a chael gwared ar yr holl ddeunyddiau a malurion o'r safle sy'n gysylltiedig â'r gwaith symud. Darparwyd cyfnod cydymffurfio o chwe mis, ac roedd y Rhybudd / Hysbysiad i fod i ddod i rym ar 31 Gorffennaf.

8.6 Yn dilyn cyflwyno'r Hysbysiad / Rhybudd Gorfodi, cysylltodd asiant y perchennog â'r Awdurdod i drafod addasiadau/dyluniadau amgen i'r annedd. Ers y cyfarfod hwn, mae ymholiad ffurfiol cyn cyflwyno cais wedi'i gyflwyno ac mae manylion a dyluniadau amrywiol yn cael eu harchwilio.

8.7 Yn y cyfamser, cyflwynwyd apêl cynllunio ac apêl hysbysiad / rhybudd gorfodi i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru o fewn yr amser gofynnol. Er bod trafodaethau'n parhau mewn perthynas â'r ymholiad cyn cyflwyno cais, mae'r apeliadau hyn yn cael eu cynnal yn unol â hynny tan 20 Ionawr 2025.

**Achosion eraill**

8.12 Anogir aelodau i gysylltu â mi, neu fy nghydweithiwr, Gavin Roberts, os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw achos penodol.

## 9.0 Casgliad

9.1 Wrth edrych ar y ddau chwarter cyntaf, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran lleihau nifer y diwrnodau a gymerwyd i ymchwilio i achosion ac rydym wedi llwyddo i gyflawni 80% - ni chyflawnwyd hyn ers peth amser. Ar ben hynny, rydym wedi llwyddo i gyrraedd categori 'teg' dangosyddion Llywodraeth Cymru, sy'n gam sylweddol i'r cyfeiriad iawn.

9.2 Yn gyffredinol, mae hyn yn anogaeth i’r adran gydymffurfio o ran yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, er gwaethaf pwysau adnoddau parhaus. Gobeithio y bydd newidiadau pellach i'r ffordd rydym yn gweithio yn helpu i sicrhau bod ein perfformiad yn dod yn fwy cyson.

9.3 Bydd swyddogion yn cyflwyno dull newydd o adrodd am achosion o dor-rheolaeth cynllunio, a bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Bolisi Cydymffurfio diwygiedig gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

**10.0 Argymhelliad**

10.1 Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â chapasiti a pherfformiad, a darparu unrhyw sylwadau ar hyn

10.2 Mabwysiadu'r Polisi Cydymffurfio diwygiedig a gynhwysir yn Atodiad 1.

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## POLISI CYDYMFFURFIAETH CYNLLUNIO

### RHAGARWEINIAD

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn dirwedd warchodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol, gydag ystod amrywiol o gynefinoedd bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. Mae hefyd yn gartref ac yn weithle i dros 25,000 o bobl ac mae tua 4 miliwn o bobl yn ymweld â'r Parc bob blwyddyn.
Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu cydnabod gan y genedl fel rhai sy'n deilwng o'u gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol. Un o'r ffyrdd niferus y gwnawn hyn yw trwy weithrediad ein swyddogaeth cynllunio statudol. Mae hyn yn cynnwys tri maes gwaith cydgysylltiedig: llunio polisi cynllunio, rheoli datblygiad a chydymffurfiaeth. Bydd unrhyw wendid yn un o'r rhain yn effeithio ar y ddau arall, ac felly'n niweidio gweithrediad effeithiol y swyddogaeth.

Er mwyn cynnal uniondeb y swyddogaeth gynllunio, rhaid inni fod **o ddifrif ynghylch cydymffurfiaeth**; bydd parch at Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael ei danseilio'n gyflym os y caniateir i weithrediadau di-awdurdod neu newid defnydd di-awdurdod, sydd hefyd yn annerbyniol o ran cynnal rhinweddau cynllunio, fynd rhagddynt heb unrhyw ymgais ymddangosiadol i ymyrryd. Dylai'r cyhoedd allu disgwyl, yn ddigon teg, yr ymdrinnir â gweithgareddau niweidiol sy'n cael eu cyflawni sy'n torri'r rheoliadau cynllunio, boed yn fwriadol neu fel arall, yn gyflym, yn effeithiol ac yn gyson.

Lle canfyddir tor-rheolaeth cynllunio, yn y lle cyntaf, byddwn yn ceisio unioni hyn trwy drafodaethau gyda'r partïon dan sylw. Weithiau, fodd bynnag, efallai y bydd y mater yn mynnu bod camau gorfodi ffurfiol yn cael eu hystyried ar unwaith. Fodd bynnag, rhaid cofio nad yw torri rheolaeth gynllunio yn drosedd yn y rhan fwyaf o achosion, ac mai pwrpas gorfodaeth cynllunio yw unioni'r niwed yn hytrach na chosbi'r cyflawnwr. Felly, wrth gymryd camau gorfodi, ein hystyriaeth bwysicaf bob amser fydd a yw amwynder neu ddiogelwch, neu'r defnydd presennol o dir neu adeiladau, yn haeddu cael ei warchod er budd y cyhoedd.

Yn unol â'r blaenoriaethau yn y polisi hwn byddwn yn ymchwilio i achosion posibl o dorri rheolau cynllunio a ddaw i'n sylw.

Byddwn hefyd, lle byddai'n fuddiol, yn ceisio cymorth gan sefydliadau eraill i geisio datrys materion (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yr Awdurdod Priffyrdd ac ati). Lle bynnag y bo modd, byddwn yn gweithio gyda busnesau, ffermwyr a chymunedau er mwyn iddynt allu bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, heb achosi costau diangen.

### *Beth sy'n gyfystyr â thorri rheolaeth gynllunio?*

Rydym hefyd ond yn gyfrifol am orfodi achosion o dorri rheolau cynllunio, er bod rhywfaint o orgyffwrdd â rheolaethau a weithredir gan awdurdodau a sefydliadau eraill. Yn y bôn, mae dwy brif ffordd y gall toriad o'r fath ddigwydd:

- Naill ai bod **datblygiad**, ee gweithrediadau adeiladu neu beirianyddol, neu newidiadau sylweddol i ddefnydd tir neu adeiladau, yn cael eu gwneud heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol; neu
- Lle rhoddwyd caniatâd neu gydsyniad, ni chydymffurfir â'r cynlluniau a gymeradwywyd, na'r amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd.

Er ei fod yn cael ei reoli trwy gyfundrefn ddeddfwriaethol ar wahân, at ddibenion y polisi hwn, mae **arddangos hysbysebion** yn ddi-awdurdod hefyd yn gyfystyr â thorri rheolaeth gynllunio. Byddwn hefyd yn ymchwilio i gwynion ynghylch **tir blêr**.

### *Be' sydd ddim yn dor-rheolaeth cynllunio?*

Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mân waith neu weithgareddau, er enghraifft, gwaith mewnol ar adeiladau, neu waith allanol nad yw'n newid eu hedrychiad yn sylweddol. Ymhellach, diffinnir gwaith adeiladu arall fel **datblygiad a ganiateir**, ac felly nid oes angen cais ffurfiol am ganiatâd cynllunio. Er enghraifft, mae hawliau datblygu a ganiateir helaeth ar gael i ddeiliaid tai er mwyn gallu addasu neu ymestyn eiddo domestig heb fod angen gofyn am ein caniatâd ymlaen llaw.

Ni allwn ychwaith ymwneud â phryderon yn ymwneud â:

- Hawliau mynediad preifat, anghydfodau ynghylch ffiniau a changhennau coed bargodol. Mae'r rhain yn faterion cyfreithiol preifat a dylid cael Cyngor gan **Gyfreithiwr** yn eu cylch.
- Allyriad sŵn, arogleuon, llwch a mathau eraill o lygredd amgylcheddol, gan gynnwys tipio anghyfreithlon a sbwriel (oni bai ei fod hefyd yn cynnwys torri

amodau Cynllunio). cyflwr). Ymdrinnir â rhain gan **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** o dan y 'Menter Adrodd Tipio Anghyfreithlon', neu gan y **Cyngor Unedol perthnasol** (Conwy neu Wynedd).

- Dulliau o adeiladu adeiladau, strwythurau peryglus a draenio. Fel arfer, adran **Rheolaeth Adeiladu'r** Cyngor Unedol perthnasol sy'n delio â'r rhain ; neu
- Lygredd dŵr daear neu gyrsiau dŵr. Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** hefyd yn ymdrin â’r rhain fel arfer.

## O GANIATÂD I WEITHREDU

Mae cynllunio yn broses gymhleth, weithiau'n ddryslyd, ac yn aml mae angen rhoi sylw gofalus i fanylion i sicrhau nad yw materion pwysig yn cael eu hanwybyddu. Fodd bynnag, mae camgymeriadau di-dwyll yn digwydd o bryd i'w gilydd. Mae ein Swyddogion Cydymffurfiaeth bob amser yn falch o allu gweithio gyda datblygwyr, cyn i waith ddechrau ar y safle, ac yn ystod cyfnod y prosiect, i sicrhau y gellir osgoi problemau cynllunio a gwella ansawdd y datblygiad gorffenedig.

### *Amodau cynllunio:*

Lle mae caniatâd cynllunio wedi’i roi, dylid darllen yr holl amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw’n ofalus a chydymffurfio â nhw’n llawn o fewn unrhyw derfynau amser penodedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag unrhyw amodau sy'n mynnu bod rhai agweddau o'r datblygiad yn cael eu caniatáu **cyn dechrau ar y datblygiad**. O dan rai amgylchiadau, gall methu â chydymffurfio ag amodau o’r math hwn arwain at annilysu eich caniatâd cynllunio. Byddai angen cais cynllunio pellach wedyn i ddatrys y sefyllfa.

Dylai datblygwyr sydd wedi cael gwybod bod tor-rheolaeth cynllunio wedi digwydd atal y gwaith rhag parhau ar unwaith. Gall hyn osgoi rhagor o waith a chost ofer, o bosibl.

## COFRESTRU PRYDER

Rydym yn derbyn ymholiadau ynghylch achosion posibl o dorri rheolau cynllunio o sawl ffynhonnell gan gynnwys grwpiau cymunedol, unigolion, Cynghorau Cymuned ac aelodau Awdurdod y Parc. Gall unrhyw un sy'n dymuno gofyn i ni ymchwilio i waith neu weithgareddau sy'n peri pryder iddynt wneud hynny mewn un o'r ffyrdd canlynol:

### *Trwy lenwi ein ffurflen 'Adrodd am Dor-rheolaeth Cynllunio' Ar-lein:*

Gellir cyrchu'r ffurflen drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol – (dolen i'w hychwanegu)

### *Yn Ysgrifenedig:*

Dylid nodi'r llythyrau hyn gy da "***Cyfrinachol – Ddim i'w Rhyddhau*** " a'u cyfeirio at:

Uwch Swyddog Cynllunio
(Cydymffurfiaeth)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF.

Er mwyn i bryder gael ei gofrestru rhaid darparu enw, cyfeiriad (post neu e-bost) a rhif ffôn cyswllt. Mae hyn er mwyn gallu rhoi ymateb, yn nodi unrhyw gamau yr ydym wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd.

Ym mhob achos, y canlynol yw'r lleiafswm o wybodaeth sydd ei angen arnom er mwyn ein galluogi i gynnal ymchwiliad effeithiol:

- enw'r person neu'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith neu weithgareddau diawdurdod honedig.
- cyfeiriad yr adeilad neu safle (bydd cynllun lleoliad/cyfeirnod grid yn ddefnyddiol).
- manylion unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol ar gyfer datblygu'r tir.
- natur y tor-rheolaeth honedig, pryd y digwyddodd gyntaf (dyddiadau ac amseroedd), a yw'n parhau ac amlder y gweithgaredd; a
- manylion y problemau sy'n cael eu hachosi; er enghraifft, effaith weledol, sŵn, arogleuon, creu traffig ac ati.



DRAFT

Gellir cyflwyno ffotograffau hefyd i gefnogi ymholiad a chynorthwyo'r broses ymchwilio.

Bydd yr Awdurdod bob amser yn cynghori pobl i ysgrifennu'n ffurfiol neu i gyflwyno eu pryder ar-lein drwy wefan yr Awdurdod er mwyn darparu cymaint o fanylion â phosibl am achosion honedig o dor-rheolaeth cynllunio. Ni fydd e-byst cyffredinol a phryderon a dderbynnir dros y ffôn yn cael eu hymchwilio mwyach.

Rhaid nodi hefyd na ymchwilir i bryderon sy'n cael eu cyflwyno'n **ddienw** fel arfer.

## SAFONAU EIN GWASANAETH

Byddwn yn gweithredu'n agored a chyda gonestrwydd ac uniondeb. Bydd pawb dan sylw gyda'n Gwasanaeth Cydymffurfiaeth yn cael eu trin yn deg ac yn wrthrychol a bydd ein holl benderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail rhinweddau cynllunio ac er lles gorau'r Parc Cenedlaethol. Bydd ein proses gwneud penderfyniadau yn gadarn ac yn dryloyw, a byddwn yn ei hesbonio a'i hamddiffyn pan fo angen.

Gall unrhyw un sy'n cofrestru pryder gyda'r Gwasanaeth Cydymffurfiaeth ddisgwyl i ni:

- *Gynnal eich cyfrinachedd, yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion datgelu sy'n deillio o gais a dderbyniwyd o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.*
- *Roi cydnabyddiaeth ysgrifenedig i chi ynghylch eich pryder a hynny o fewn deg diwrnod gwaith o'i dderbyn.*
- *Eich gwahodd i roi sylwadau ar unrhyw gais am ganiatâd cynllunio sy'n codi o'n hymchwiliad.*
- *Roi gwybod i chi am ganlyniad yr ymchwiliad, p'un a gymerir camau gorfodi ffurfiol ai peidio; a*
- *Chydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.*

Fel arall, os ydych wedi cael gwybod gennym eich bod wedi torri'r rheoliadau cynllunio gallwch ddisgwyl:

- *Cael gwybod yn glir sut y torrwyd y rheoliadau, pa gamau sydd angen eu cymryd i unioni'r sefyllfa, ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud hyn.*
- *Cewch gyfle i drafod a datrys y mater trwy gyd-drafod cyn y cymerir camau ffurfiol; oni bai bod hyn yn angenrheidiol o ystyried difrifoldeb y tor-rheolaeth, neu oherwydd diffyg cydweithredu bwriadol; a*
- *Chewch wybod pam y bu'n rhaid cymryd camau gorfodi, y polisïau cynllunio perthnasol sydd wedi arwain at y penderfyniad a'r gweithdrefnau apelio sydd ar gael.*

## Y BROSES CYDYMFFURFIO

### *Blaenoriaethau cydymffurfio:*

Rydym yn derbyn dros 130 o ymholiadau yn ymwneud ag achosion posibl o dor-rheolaeth cynllunio bob blwyddyn, ac mae'r rhain yn amrywio'n sylweddol o ran eu natur. Mae pryderon cyffredin yn ymwneud ag adeiladu neu weithrediadau eraill, newid defnydd adeiladau i ddefnydd masnachol, hysbysebion di-awdurdod a phroblemau sy'n gysylltiedig â thir blêr.

Yn amlwg ni ellir rhoi blaenoriaeth gyfartal i bob ymholiad. Ni ellir ychwaith bennu blaenoriaethau ar sail pwy yw'r achwynydd, neu'r datblygwr, nac ar sail nifer neu gryfder y cwynion a dderbyniwyd. Rydym yn cydnabod bod pryderon yn bwysig iawn i achwynydd, fodd bynnag mae adnoddau gorfodi yn gyfyngedig, a bydd rhai materion yn achosi llawer mwy o niwed i'r amgylchedd, i ddiogelwch y cyhoedd neu amwynder preswyl nag eraill. Gall effaith gronnus materion sydd fel arall yn llai arwyddocaol hefyd gael effaith gyffredinol sylweddol.

Felly mae'r tri chategori blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi. Bydd pob ymchwiliad newydd yn cael ei osod yn un o'r rhain i ddechrau er mwyn pennu'r camau priodol i'w cymryd, a chyflymder yr ymateb.

### *Categori A – Blaenoriaeth Uchel:*

- Gwaith sy'n cael ei wneud yn groes i ofynion Hysbysiad Gorfodaeth/Stopio, neu unrhyw dor-rheolaeth cynllunio sy'n parhau lle mae camau gorfodi wedi'u hawdurdodi.
- Torri amodau a allai ddod yn imiwn rhag cymryd camau gweithredu gorfodaeth.
- Dymchwel Adeilad Rhestredig, neu newid mawr, heb awdurdod, neu ddymchwel adeilad mewn Ardal Gadwraeth.
- Datblygiad di-awdurdod a all arwain at ddifrod sylweddol a/neu barhaol i safleoedd cadwraeth natur pwysig.
- Gwaith di-awdurdod ar goed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed, neu i goed mewn Ardal Gadwraeth, lle mae coed yn debygol o gael eu difrodi'n ddifrifol neu eu tynnu.
- Cael gwared ar berthi pwysig.
- Diffyg cydymffurfio â Rhwymedigaeth Cynllunio Adran 106.
- Achosion lle mae angen Gweithredu Uniongyrchol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hysbysiad gorfodi neu hysbysiad arall; ac
- Anheddiadau Newydd di-awdurdod a charafannau preswyl.

### *Categori B – Blaenoriaeth Ganolig:*

- Torri amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio a chydsyniadau eraill.
- Adeiladau, gwaith neu newidiadau defnydd sy'n effeithio'n andwyol ar amgylchedd y Parc Cenedlaethol, neu sy'n peryglu ansawdd bywyd trigolion neu ymwelwyr.
- Tir neu adeiladau blêr; a
- Datblygiad telathrebu.

### *Categori C – Blaenoriaeth Isel:*

- Mân dor-rheolaeth neu do-rheolaeth technegol o reolaeth gynllunio lle achosir niwed cyfyngedig i amwynder.
- Arddangos hysbysebion, gan gynnwys gosod posteri'n anghyfreithlon.
- Anghydfodau rhwng cymdogion sy'n ymwneud â datblygiadau deiliaid tai neu ddatblygiadau tebyg a lle mae effaith gyhoeddus gyfyngedig; ac
- Unrhyw achos honedig o dorri rheolaeth gynllunio nad yw'n dod o fewn **Categori A** neu **Categori B.**

DRAFT

### *Amserlenni ymchwiliad:*

Er mwyn sefydlu a oes tor-rheolaeth cynllunio wedi digwydd bydd bron bob amser yn angenrheidiol i Swyddog Cydymffurfiaeth ymweld â'r safle. Mae ein holl Swyddogion yn cario cerdyn adnabod ac yn meddu ar fanylion eu **Hawliau Mynediad** mewn cysylltiad ag ymchwiliadau cydymffurfio.

Yn aml iawn bydd yr archwiliad cychwynnol o safle y darpar fater gorfodaeth yn hanfodol ar gyfer pennu'r flaenoriaeth barhaus i'w rhoi i'r ymchwiliad, a'r camau gweithredu dilynol tebygol. Mae'r canlynol yn amseroedd ymateb yr ydym yn eu hystyried yn briodol ac yn rhesymol ar gyfer pob categori blaenoriaeth. Yr amseroedd ymateb hwyaf yw'r rhain ac, yn ôl yr amgylchiadau, efallai y bydd angen archwilio rhai safleoedd yn gynt.

Byddwn yn anelu at archwilio 90% o safleoedd o fewn yr amserlenni canlynol:

| | |
|---|---|
| • *Category A (Uchel)* | *3 Diwrnod Gwaith* |
| • *Category B (Canolig)* | *7 Diwrnod Gwaith* |
| • *Category C (Isel)* | *28 Diwrnod Gwaith* |

Lle gall fod ansicrwydd ynghylch a oes tor-rheolaeth cynllunio wedi digwydd mewn gwirionedd ai peidio, efallai y cyflwynir **Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio.** Bydd hyn yn gofyn am fanylion perchnogaeth tir ac am fanylion y defnydd a wneir o'r tir a gall hefyd ofyn i'r datblygwr fynychu cyfarfod 'amser a lle' er mwyn gallu trafod y mater.

### *Hwylustod a budd y cyhoedd:*

Nid yw achos cynllunio da yn cael ei wasanaethu trwy fynd ar drywydd achosion dibwys o dorri rheolaeth. Fodd bynnag, gellir ystyried fod peidio â gweithredu, lle mae'n amlwg yn angenrheidiol, yn fater o gamweinyddu. Mae yr un mor bwysig cofio mai pŵer **dewisol yw gorfodaeth cynllunio**. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni benderfynu fesul achos a yw er **budd y cyhoedd** i gymryd camau gorfodi. Felly nid oes rhaid cymryd camau mewn perthynas â phob achos o dorri rheolau cynllunio a nodir, ac yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n amhriodol cymryd camau ffurfiol yn erbyn tor-rheolaeth ddibwys neu dechnegol nad yw'n achosi unrhyw niwed i amwynder yn ardal y safle, neu un sydd yn ei hanfod o natur breifat, er enghraifft anghydfodau rhwng tirfeddianwyr cyfagos.

Ni chymerir camau ychwaith ar sail colled ymddangosiadol yng ngwerth eiddo, colli golygfa neu gystadleuaeth bosibl â busnes tebyg.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae gennym hefyd yr opsiwn o geisio cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol. Bydd hyn yn aml yn angenrheidiol pan fyddwn yn dymuno gosod amodau ar y defnydd parhaus o dir, er enghraifft i reoli oriau gweithredu datblygiad a allai fod yn swnllyd. Er mwyn hwyluso hyn gellir cyflwyno **Hysbysiad Rhybudd Gorfodaeth.** Gellir cyflwyno'r Hysbysiad hwn pan ystyrir y gallai datblygiad di-awdurdod fod yn dderbyniol gyda rheolaeth brioodol a gweithredu amodau cynllunio priodol. Bydd cyflwyno'r Hysbysiad hwn yn rhoi arwydd i'r datblygwr/troseddwr y gellid gweithredu rheolaeth briodol ar y datblygiad i'w wneud yn dderbyniol, pe bai cais yn cael ei gyflwyno.

### *Cymryd camau gorfodi:*

Os bydd angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, mae ystod eang o bwerau sydd ar gael wedi'u dirprwyo i'n Swyddogion Cydymffurfiaeth. Bydd asesiad yn cael ei wneud, ym mhob achos, o ba bŵer (neu gymysgedd o bwerau) sydd fwyaf addas i ymdrin ag unrhyw amheuaeth neu dor-rheolaeth wirioneddol er mwyn cael ateb boddhaol, parhaol a chost-effeithiol. Mae cychwyn camau gorfodi yn gyflym yn aml yn hanfodol er mwyn atal sefyllfa di-awdurdod rhag sefydlu'n iawn, ac felly byddai'n fwy anodd ei datrys. Wrth ystyried a ddylid cymryd camau gorfodi, byddwn yn asesu pob achos o dorri rheolau cynllunio yn erbyn y meini prawf canlynol:

DRAFT

- *A yw'r datblygiad neu'r gwaith di-awdurdod yn gwrthdaro â pholisïau perthnasol y cynllun lleol.*
- *Amcanion statudol y Parc Cenedlaethol a darpariaethau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.*
- *Cynnwys cyngor a chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) neu Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau).*
- *Lefel y niwed sy'n cael ei achosi, neu a allai gael ei achosi, i'r amgylchedd naturiol neu adeiledig.*
- *Lefel y niwed sy'n cael ei achosi, neu a allai gael ei achosi, i amwynder gweledol neu breswyl; ac*
- *A oes unrhyw oblygiadau o ran diogelwch y cyhoedd.*

Mae manylion y pwerau gorfodi amrywiol sydd ar gael i ni wedi'u nodi o dan Adran 14 Atodiad Offer Gorfodi'r Llawlyfr Rheolaeth Datblygu a gellir eu gweld yma - adran-14-annex-enforcement-tools.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod targed **12 wythnos** ar gyfer datrys achosion gorfodi. Er y byddwn yn anelu at gyrraedd y targed hwn yn y rhan fwyaf o achosion, oherwydd natur gymhleth llawer o'r ymchwiliadau yr ydym yn eu cynnal, bydd rhai yn cymryd mwy o amser.

Mae gennym hefyd **Ddangosydd Perfformiad Lleol** sy'n cofnodi canran yr achosion sydd wedi'u datrys yn foddhaol heb fod angen cymryd camau gorfodi ffurfiol; credwn fod hwn yn fesur gwell o'n llwyddiant.

DRAFT

### *Deddf Hawliau Dynol 1998:*

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol (DHD) wedi ymgorffori darpariaethau o'r **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol** yng nghyfraith y DU. Mae'r Confensiwn yn datgan y caiff awdurdodau cyhoeddus ymyrryd â bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth rhywun ddim ond pan fo ganddynt awdurdod cyfreithiol i wneud hynny, a lle bo angen mewn cymdeithas ddemocrataidd; ac na ellir amddifadu neb o'u heiddo ac eithrio lle caniateir y weithred dan y gyfraith a bod modd ei chyfiawnhau er budd y cyhoedd.
Byddwn yn ystyried darpariaethau'r DHD yn ofalus wrth benderfynu a ddylid

cymryd camau gorfodi, y mae'n rhaid iddynt bob amser fod yn **gymesur** â maint y tor-rheolaeth, a hefyd gymesur â lefel y niwed sy'n cael ei achosi (neu a allai gael ei achosi). Yn yr un modd, byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad yw ein gweithredoedd yn arwain at unrhyw honiadau o wahaniaethu yn erbyn unrhyw ddinesydd neu grŵp.

## CWYNION AM EIN GWASANAETH

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu safon uchel o wasanaeth i'r cyhoedd bob amser. Weithiau, fodd bynnag, gellir gwneud camgymeriadau. Felly mae gennym weithdrefn sefydledig ar gyfer cofnodi ac ymdrin â chwynion am ein gwasanaethau, a gellir dod o hyd i fanylion drwy ddilyn y ddolen hon - Gwneud Cwyn - Awdurdod y Parc

Fel arall, gellir cysylltu â’n **Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer** dros y ffôn ar 01766 770274 neu e-bost parc@eryri.llyw.cymru

### *Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:*

Os ydych yn anhapus gyda’n hymateb i gŵyn, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn bellach i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), I gael cyngor ar wneud cwyn gallwch ffonio’r OGCC ar 0300 790 0203 neu gallwch e-bostio - bost holwch@ombwdsmon.cymru

Gellir cyflwyno cwynion i OGCC ar-lein, neu drwy’r post i’r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CAERDYDD, CF35 5LJ



DRAFT

# PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

## 04 RHAGFYR 2024

# CYTUNDEBAU ADRAN 106

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 04 RHAGFYR 2024.**

**CYTUNDEBAU ADRAN 106**

| Rhif | Rhif y cais | Dyddiad y daeth y cais i law | Lleoliad | Datblygiad | Y Sefyllfa Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | NP5/55/46G | 12/07/2023 | Fferm Geufron, Bryncrug, LL36 9RW | Trosi sgubor a stabl yn llety gwyliau tymor byr | Cytundeb draft wedi ei yrru 19/08/24. |
| 2. | NP5/58/646 | 17/03/2023 | Tir ger Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy. | Adeiladu byngalo wedi'i addasu'n arbennig ynghyd ac annedd deulawr | Cytundeb drafft wedi ei yrru i'r ymgeisydd ar y 11/11/24. |
| 3. | NP5/62/T143B | 05/10/2022 | Tanws Wern Gron, Llanbedr. LL45 2PH | Adfer, ymestyn a trosi hen felin i dy, creu cwrtil, a gosod tanc septig tanddaearol | Manylion perchnogion wedi newid, aros am gopi Newydd or tetl Cofrestra Tir ers 03/09/24. |
| 4. | NP5/77/LB65A | 05/07/2024 | Capel Soar, Soar. | Trosi capel i dy ynghyd a newidiadau cysylltiedig. | Cyhoeddwyd y drafft ar 31/10. Cyfreithiwr yr ymgeisydd yn adolygu'r drafft ar hyn o bryd. |
| 5. | NP5/77/347 | 18/01/2023 | Tir ger Tŷ Mawr, Talsarnau. LL47 6UF | Adeiladu ty fforddiadwy, creu cwrtil, ymestyn trac mynediad, a newidiadau i'r fynedfa cerbydau presennol. | Cytundeb drafft wedi ei yrru i'r ymgeisydd ar y 11/11/24. |

Nifer o geisiadau ar restr Pwyllgor 16 Hydref 2024 = 3

**CEISIADAU SY'N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 A SYDD WEDI EU CWBLHAU ERS PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD 16 HYDREF 2024**

| Rhif y cais | Lleoliad | Datblygiad |
|---|---|---|
| | | |

**CEISIADAU SY’N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 SYDD WEDI EU GWRTHOD, TYNNU’N ÔL, NEU WEDI EU GWAREDU, NEU LLE NAD OES ANGEN CYTUNDEB PELLACH ERS PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD 16 HYDREF 2024**

| Rhif y cais | Lleoliad | Datblygiad |
|---|---|---|
| | | |

# PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

## 04 RHAGFYR 2024

# CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 04 RHAGFYR 2024**
**CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY**

## Disgwyl Gwybodaeth Ecolegol

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP4/16/78K | 29/02/24 | Tanaeldroch, Dolwyddelan. LL25 0L | Newid defnydd ac ymestyn adeilad allanol i'w ddefnyddio fel anecs atodol i'r prif eiddo (Tanaeldroch) |
| NP5/72/254 | 22/01/24 | Tir ger Dol Hir, Frongoch, LL23 7NT | Adeiladu tŷ menter gwledig a gosod uned trîn carthion. |
| NP5/73/439 | 23/11/23 | Tir ger Llech-y-Cwm, Gellilydan. LL41 4EU | Codi annedd menter wledig, creu mynedfa newydd i gerbydau, a gosod tanc septig |

## Disgwyl Manylion gan yr Asiant / Ymgeisydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP2/16/442 | 10/05/24 | Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AX | Creu cyswllt llwybr troed trwy goetir i gynnwys llwybrau pren uchel, pontydd, cyfeirbwyntiau. meinciau, paneli dehongli, lloches a 'Portaloo' |
| NP2/16/454B | 31/07/24 | Tir yn Cefn Coch Isaf, Cwm Ystradllyn. LL51 9AZ | Amrywio Amod 3 (Cyflwyno CEMP) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP2/16/454A dyddiedig 02/09/2020 |
| NP4/11/398B | 05/08/24 | Tir ger y Feddygfa, Betws-y-Coed. LL24 0BP | Rhyddhau Amodau 4 (Llechi to) & 5 (Sampl cerrig) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP4/11/398 dyddiedig 17/01/2022. |
| NP4/16/246 | 11/06/24 | Bryn Tirion, Dolwyddelan. LL25 0JD | Trosi ac estyniad i adeilad allanol i greu tŷ fforddiadwy |
| NP4/31/127 | 31/05/24 | Tir ger Hendre Ifan, Ysbyty Ifan. | Codi 2 dy deulawr fforddiadwy |
| NP5/50/762 | 15/03/24 | Four Winds, 3 Corbett Lane, Aberdyfi. LL35 0RB | Adeiladu garej ar wahân gyda lle parcio gwastad, creu decin, newidiadau i'r fynedfa i gerddwyr a newidiadau i tŷ. |
| NP5/53/T154N | 17/06/24 | Adeiladau Banc y National Westminster, 44-46 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7NE | Newid defnydd y llawr gwaelod o ddefnydd A2 (Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) i ddefnydd A1 (Siopau adwerthu a storfeydd), hepgor yr anheddau pâr a ganiatawyd yn flaenorol (2) a hepgor yr estyniad unllawr a ganiatawyd yn flaenorol y tu ôl i'r adeilad presennol. |
| NP5/55/60L | 20/05/24 | Tir yn Ffordd-y-Felin, Bryncrug. | Datblygiad preswyl yn cynnwys 12 annedd (Marchnad Agored) a datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys mannau agored, parcio, mynediad a seilwaith draenio. |
| NP5/57/1008C | 26/03/24 | Tir yn Coed Penmaenuchaf, Llynpenmaen. LL40 1YB | Codi tŷ Un Planed ac adeilad Dosbarth. |
| NP5/58/646 | 17/03/23 | Tir ger Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy. | Adeiladu byngalo wedi'i addasu'n arbennig ynghyd ac annedd deulawr |
| NP5/58/660 | 19/04/24 | Llwyneinion Fechan, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX | Trosi adeiladau fferm segur i ffurfio 2 uned gwyliau i'w gosod am dymor byr ynghyd a gosod uned trîn carthion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP5/59/495C | 17/07/24 | Tir ger Pont yr Afon Gam, Llan Ffestiniog. | Cynllun cynhyrchu trydan dwr arfaethedig i gynhyrchu hyd at (600kW) yn Afon Cynfal, i gynnwys llwybr pibelli, cored mewnlif, pwll echdynnu, llifddor o dan y ddaear (tua 1.2km), adeilad tyrbin, adeilad mesuryddion, newidiadau i'r mynediad presennol ac ail-osod lleoli mynedfa priffordd bresennol, ardaloedd gosod i lawr, compownd adeiladu dros dro, gwyriad llwybr troed dros dro a chysylltiad pwer trydan uwchben ac o dan y ddaear i'r grid cenedlaethol (tua 600m) (Ail-gais) |
| NP5/68/100G | 28/02/24 | Creua, Llanfrothen. LL48 6SH | Newid defnydd adeilad a chodi estyniad unllawr i adeilad presennol i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â busnes crochenwaith presennol. |
| NP5/78/421A | 17/11/23 | Tir gyferbyn a Teras Ty Llwyd, Trawsfynydd. LL41 4TH | Trosi garej bresennol yn annedd (Meddiannaeth Fforddiadwy a Lleol) ynghyd â gosod 2 ffenestr to newydd |

### Disgwyl Asesiad Priodol ARHC

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP3/12/126C | 20/09/22 | Bron Fedw Uchaf, Rhyd Ddu. LL54 7YS | Trosi a newid defnydd arfaethedig o allandai gwledig i 3 uned gwyliau i'w gosod, codi sgubor ystlumod, newidiadau i fynedfa cerbydau presennol a gwaith cysylltiedig |
| NP5/54/18C | 10/05/24 | Gornant, 4 Tai Baldwin, Llanfachreth. LL40 2EA | Newid defnydd o dir preswyl i ymgorffori defnydd busnes a gosod pabell fawr at ddibenion cynnal gweithdai cerameg. |

### Aros am Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP5/61/647A | 12/03/24 | Ty'n y Gwater, Harlech. LL46 2UW | Dymchwel adeiladau presennol ac adeiladu ty menter gwledig (Ail-gyflwyniad). |

### Ail-Ymgynghori ar Gynlluniau Diwygiedig

| | | | |
|---|---|---|---|
| NP3/21/T78A | 24/07/24 | Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon, Bethesda. LL57 3LX | Amrywio Amodau 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ac 8 (Maint y cerbydau danfon) ynghlwm wrth Ganiatad Cynllunio NP3/21/T78 dyddiedig 12/10/2024 |
| NP5/57/ADL240F | 08/08/24 | Spar, Siop Glyndwr, Plas yn Dref, Dolgellau. LL40 1AD | Caniatad ol-weithredol ar gyfer caniatad hysbysebu i gadw arwyddion |

Nifer o geisiadau ar y rhestr = 22

Nifer o geisiadau ar y rhestr Pwyllgor 16 Hydref 2024 = 22

# PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD

# 04 RHAGFYR 2024

# PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 04 RHAGFYR 2024**

**PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG**

**Ceisiadau wedi ei caniatau**

| | Rhif y Cais | Bwriad | Lleoliad | Dyddiad Penderfyniad | Swyddog Achos |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | NP2/11/117E | Rhyddhau Amod 5 (Sampl cerrig) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP2/11/117C dyddiedig 23/11/2022 | Can y Glaslyn, Beddgelert. LL55 4NB | 30/09/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 2. | NP2/11/637C | Cais ôl-weithredol i gadw sied, llwybr mynediad a grisiau a phaneli solar (3.0kw). | Tir ger Hafod Garregog rhwng Nantmor & Llanfrothen. | 06/11/24 | Mr Aled Lloyd |
| 3. | NP2/11/LB352V | Caniatad Adeilad Rhestredig i gael gwared ar y pibelli trydan presennol a gosod pibelli trydan newydd | Gwesty'r Afr, Beddgelert. LL55 4YE | 04/11/24 | Miss Eva Jones |
| 4. | NP2/16/417B | Newid defnydd o dir amaethyddol i gwrtil domestig (Cais ol-weithredol) | Gyfyng, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AX | 11/11/24 | Mr. Gavin Roberts |
| 5. | NP2/16/LB194H | Rhyddhau Amodau Rhif 3 (Rhaglen o gofnodi archaeolegol) a Rhif 4 (Adroddiad manwl ar y gwaith archaeolegol) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP2/16/LB194G dyddiedig 13/02/2024 | Erw Suran, Cwmystradllyn, Garndolbenmaen. LL51 9BQ | 07/10/24 | Miss Eva Jones |
| 6. | NP4/11/415 | Dymchwel garej unllawr presennol a chodi garej ddeulawr gysylltiedig, estyniad to i'r annedd, symud simneiau, gosod ffliw simnai newydd a gosod ffenestri to | Glan Lledr Bungalow, Betws-y-Coed. LL24 0SN | 12/11/24 | Mr David Jones |
| 7. | NP4/11/LB23L | Gosod peiriannau talu maes parcio, Camera ANPR ac arwyddion ac offer cysylltiedig | St. Mary's Church, Betws y Coed. LL24 0AA | 05/11/24 | Miss Eva Jones |
| 8. | NP4/11/LBAD23M | Caniatad Hysbyseb ar gyfer arwyddion mewn cysylltiad ag uwchraddio maes parcio | St. Mary's Church, Betws y Coed. LL24 0AA | 05/11/24 | Miss Eva Jones |
| 9. | NP4/32/387 | Gosod seilo porthiant amaethyddol 6.650m o uchder, 10 tunnell | Cae Crwn, Ffordd Crafnant, Trefriw. LL27 0JZ | 23/10/24 | Mrs Jane Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10. | NP4/32/LB39D | Codi storfa boncyffion pren | The Old Rectory, Trefriw. LL27 0NJ | 28/10/24 | Miss Eva Jones |
| 11. | NP5/50/540D | Dileu Amod 2 (Amod deiliadaeth 10½ mis) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/50/540A dyddiedig 26/07/2002 i ganiatáu deiliadaeth 12 mis (Caniatad Personol) | Caban 59, Plas Panteidal, Aberdyfi. LL35 0RF | 26/09/24 | Mrs Jane Jones |
| 12. | NP5/50/562U | Amrywio Amod Rhif 6 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/42/160A dyddiedig 21/04/1976 i ymestyn y cyfnod meddiannu o 8 i hyd at 11 mis mewn unrhyw flwyddyn galendr | Caban N, Plas Panteidal, Aberdyfi. LL35 0RF | 14/10/24 | Mr David Jones |
| 13. | NP5/53/113E | Gosod 6 pwmp gwres ffynhonnell aer (100kw) | Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala LL23 7SR | 30/10/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 14. | NP5/53/576A | Estyniad i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan dren a cherbydau, blwch signal ynghyd a datblygiad cysylltiol (Ail-gyflwyniad) | Tir yn Y Bala. | 21/10/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 15. | NP5/53/LB231A | Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer atgyweirio, paentio a rendrad yng nghefn y ty | Glasfryn, 2 Heol Yr Orsaf, Bala. LL23 7NG | 06/11/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 16. | NP5/54/461C | Cais ôl-weithredol i leoli fan gwersylla o fewn cwrtil i gydymffurfio ag Amod 2 o cyfeirnod apêl cynllunio Rhif P44/385 a P44/404 dyddiedig 18 Mawrth 1987 | 11 Bryniau, Brithdir. LL40 2TY | 03/10/24 | Mrs Jane Jones |
| 17. | NP5/54/461D | Cais ôl-weithredol i gadw sied bren | 11 Bryniau, Brithdir. LL40 2TY | 03/10/24 | Mrs Jane Jones |
| 18. | NP5/54/476 | Newidiadau allanol i'r neuadd bresennol i adleoli mynedfa a chreu ramp mynediad hygyrch | Neuadd Bentref, Llanfachreth. LL40 2DY | 11/11/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 19. | NP5/55/241 | Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer | 8 Y Groesffordd, Bryncrug. LL36 9RP | 01/10/24 | Mr David Jones |
| 20. | NP5/55/84D | Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer annibynnol o fewn cwrtil ty annedd | Maes Tegfryn, Bryncug. LL36 9PE | 04/11/24 | Mr David Jones |
| 21. | NP5/57/1163A | Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd cynllunio NP5/57/1163 dyddiedig 26/06/2020 i gynyddu maint yr estyniad sydd wedi ei ganiatau | 52 Maesbrith, Dolgellau. LL40 1LF | 14/10/24 | Mr David Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 22. | NP5/57/LB330N | Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol sy'n gysylltiedig â newid defnydd, gan gynnwys cadw gwaith anawdurdodedig | Tŷ Beechwood, Heol y Bont, Dolgellau. LL40 1AU | 22/10/24 | Miss Eva Jones |
| 23. | NP5/57/LB383 | Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer gosod drws allanol ac estyniad cefn | Erw Gain, 2 Park Row, Dolgellau. LL40 1SE | 25/09/24 | Mr David Jones |
| 24. | NP5/57/LB437D | Caniatad Adeilad Rhestredig i gadw gwaith mewnol sy'n cynnwys gosod wal fridfa bren i ehangu toiled i gynnwys sinc a chawod, a gosod fent allanol i ddrychiad ochr | Siop y Gornel, Felin Isaf, Dolgellau. LL40 1EU | 01/10/24 | Miss Eva Jones |
| 25. | NP5/58/363J | Trosi adeilad allanol yn dy fforddiadwy a gosod gwaith trin carthion | Nant Eos, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX | 30/09/24 | Mr Aled Lloyd |
| 26. | NP5/58/668 | Rhyddhau Amodau Rhif 3 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu), 4 (cynllun tirweddu), 5 (Mesurau Osgoi Rhesymol Madfallod Cribog (MC)), 6 (Asesiad Risg Bioddioglewch a Datganiad Dull), & 7 (Manylion Lliw y Wal) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/58/18Z dyddiedig 22/02/2023 | Barmouth Bay Holiday Park, Ffordd Glan-Mor, Talybont. LL43 2BJ | 09/10/24 | Mr Aled Lloyd |
| 27. | NP5/58/669 | Gosod pwmp gwres ffynhonell aer i gefn yr eiddo | Seacliff, 28 Llwyn Ynn, Talybont. LL43 2AL | 06/11/24 | Mr Aled Lloyd |
| 28. | NP5/58/9G | Gosod 3 pod gwyliau, llwybrau mynediad a sustem trin carthion | Llwyn Griffri, Talybont. LL43 2AU | 05/11/24 | Mr Aled Lloyd |
| 29. | NP5/58/AD340H | Caniatad Hysbyseb arwyddion (3 ffascia newydd yn cynnwys goleuo, 8 finyl ffenestr newydd gyda graffeg o'r prif ddelweddau, 11 finyl blocio Newydd mewn llwyd ar gyfer ffenestri lefel uwch, ffenestr farugog, a 3 cas boster y gellir ei chloi) | Swyddfa Bost, Dyffryn Ardudwy. LL44 2EL | 08/10/24 | Mr Aled Lloyd |
| 30. | NP5/58/LB367B | Rhyddhau Amod Rhif 4 (llechi to) a 5 (nwyddau dŵr glaw) ynghlwm i Ganiatâd Adeilad Rhestredig NP5/58/LB367A dyddiedig 17/01/2024 | 1 Glanrhos, Dyffryn Ardudwy. LL44 2BP | 22/10/24 | Miss Eva Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 31. | NP5/58/LB443F | Rhyddhau Amodau Rhif 4 (Manylion y to), 5 (Llechi), 6 (Goleuadau to), 7 (Trin ymylon a bondo), 8 (Manylion teras), 10 (Awyren lechi), 11 (Saernïaeth), 14 (Manylion y morter), 15 (Llechen y llawr), 16 (Gorffeniadau mewnol) a 19 (Rhaglen cofnodi archeolegol) ynghlwm wrth Ganiatâd Adeilad Rhestredig NP5/58/LB443D dyddiedig 14/12/2023 | Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RQ | 15/10/24 | Mr Aled Lloyd |
| 32. | NP5/61/668 | Cais ol weithredol i gadw pwmp gwres ffynhonnell aer allanol ar yr edrychiad (cefn) gorllewinol | 32 Y Waun, Harlech, LL46 2UN | 24/10/24 | Mr Aled Lloyd |
| 33. | NP5/61/92C | Newid defnydd modurdy presennol yn windy | Llanllwyni, Harlech. LL46 2RA | 05/11/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 34. | NP5/69/14F | Dymchwel ystafell haul a codi estyniad | Hafod Wen, Rhoslefain. LL36 9NH | 29/10/24 | Mr David Jones |
| 35. | NP5/69/425 | Rhyddhau Amodau 2 (Cynllun Cadwraeth Ystlumod), 3 (Cynllun Goleuo), 4 (Amserlen Lliniaru), 6 (Cynllun Tirweddu a Phlannu), 7 (Arolwg Ffotograffig), 9 (Fentiau llechi a tho), 10 (Ffenestri, drysau a sgriniau allanol) & 11 (Clwydfan ystlumod) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP5/69/113N dyddiedig 04/04/2024 | Llanfendigaid, Rhoslefain. LL36 9LS | 04/10/24 | Mr David Jones |
| 36. | NP5/69/427 | Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer allanol | Trem-y-Don, Ffordd Celynnin, Llwyngwril. LL37 2JD | 26/09/24 | Mr David Jones |
| 37. | NP5/70/50F | Estyniad deulawr i'r byngalo presennol, ac estyniad llawr cyntaf i garejis/storfa offer i ddarparu llety ychwanegol ar y safle | Canolfan Addysg Awyr Agored, Rhos-y-Gwaliau. LL23 7ET | 28/10/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 38. | NP5/70/LB28B | Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau i’r bont droed gan gynnwys gosd trac tren a gwaith cysylltiedig (Ail-gyflwyniad) | Pont Mwnwgl-y-Llyn, Bala. | 21/10/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 39. | NP5/72/89C | Gosod ffenestri a boeler newydd, gosod paneli solar a chodi twnnel polythen | Hafod y Nant, Parc. LL23 7YR | 24/09/24 | Mr. Dafydd Thomas |
| 40. | NP5/73/441B | Addasiadau ac ailosod to ar adeilad allanol sydd ynghlwm i ffurfio estyniad i'r ty presennol a gwaith cysylltiedig | Wern Meirch, Gellilydan. LL41 4RE | 04/10/24 | Mr Aled Lloyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 41. | NP5/77/179A | Cais ôl-weithredol i godi garej/storfa ar wahân | Bron-y-Garth, Llandecwyn. LL47 6YW | 09/10/24 | Miss Eva Jones |

**Ceisiadau wedi ei gwrthod**

| | Rhif y Cais | Bwriad | Lleoloiad | Rheswm Gwrthod | Swyddog Achos |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | NP2/16/389H | Diwygiad Ansylweddol i Ganiatad Cynllunio NP2/16/389G dyddiedig 06/09/2024 i godi uchder y bondo a llinell crib yr estyniad a gymeradwywyd | Beudy Parc, Golan. LL51 9AQ | 08/10/24<br>Ym marn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ystyrir bod y diwygiadau arfaethedig yn rhai 'sylweddol' eu natur oherwydd byddant yn arwain at newid sylweddol i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. Felly ni ellir ystyried bod y newidiadau arfaethedig yn rhai 'ansylweddol' a bydd angen cael caniatâd cynllunio newydd ar eu cyfer. | Mr David Jones |
| 2. | NP5/57/205L | Rhyddhau Amod Rhif 3 (Sgubor clwydo ystlumod) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/57/205J dyddiedig 18/01/2024 | Fronoleu, Tabor, Dolgellau. LL40 2PS | 16/10/24<br><br>Ni ddangoswyd bod dyluniad a manyleb y sgubor clwydo ystlumod o safon foddhaol er mwyn lleihau'r risg o niwed annerbyniol neu aflonyddwch i rywogaethau a warchodir. Ystyrir felly fod y manylion a gyflwynwyd yn gwrthdaro â Pholisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 ac yn benodol SP A, SP D a DP 1, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), Canllawiau-Cynllunio-Atodol-1---Cynaliadwy-. Dylunio-ym-Parciau-Cenedlaethol-Cymru,-Canllawiau-Cynllunio-Atodol-2---Ystyriaethau-Cyffredinol-Datblygu-a-Cyfarwyddyd-Cynllunio-Atodol-6---Cadwraeth-Natur-a-Bioamrywiaeth. | Mr David Jones |
| 3. | NP5/58/365J | Amrywio Amod 2 (Dyluniad diwygiedig) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/58/365H dyddiedig 18/09/2023 | Llain 3, Cae A.O. Rhif 9687, Penybont, Talybont. | 23/09/24<br><br>Ni fyddai'r orendy arfaethedig, oherwydd ei ddyluniad cyffredinol sy'n ymgorffori to gwastad, yn gydnaws â chapasiti a chymeriad y safle a'r ardal y mae wedi'i leoli ynddo. O'r herwydd, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 a 6 Cynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig. | Mr Aled Lloyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Nid oes unrhyw fesurau gwella bioamrywiaeth na Datganiad Seilwaith Gwyrdd wedi'u cynnwys gyda'r cynnig. Felly, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Strategol D Cynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig a pharagraff 6.4.5 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021) sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgorffori gwella bioamrywiaeth gyda phob cais. | |
| 4. | NP5/58/629 | Cais amlinell i godi pedwar ty deulawr ar wahân (2 marchnad agored a 2 ffoddiadwy) gyda garejis mewnol a chreu mynedfa gerbydau i'r A496 | Tir rhwng Plas Meini & Swyn y Môr, Dyffryn Ardudwy. LL42 2BH | 04/10/24<br>Oherwydd nad yw'r ymgeisydd yn dangos y gallu neu'n anfodlon ymrwymo i Gytundeb Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) i sicrhau fforddiadwyedd y ddau dŷ fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â'r angen lleol. Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 – 2031) Polisïau SP C, SP G a DP 30 a Chanllawiau Cynllunio Atodol 4 a 5. | Mr Aled Lloyd |
| 5. | NP5/61/123E | Newid defnydd siopau ar y llawr gwaelod yn fwyty | Castle Court & Gwynfa, Stryd Fawr, Harlech. LL46 2YA | 04/10/24<br>Nid yw'r cais hwn yn darparu unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r defnydd A1(siop) presennol yn hyfyw mwyach a bod angen cymunedol ac anheddle am uned A3 (bwyty). Felly, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth mae'r cynnig yn groes i Bolisi Datblygu 24 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-31 sy'n ceisio gwrthsefyll newid defnydd eiddo manwerthu llawr gwaelod (A1) i ddefnydd A2 neu A3 o fewn defnydd a nodwyd. ardal manwerthu oni bai y gellir profi bod parhau i ddefnyddio uned A1 yn anhyfyw a/neu fod yr uned A1 wedi bod yn wag neu ar werth heb unrhyw ddiddordeb. | Mr Aled Lloyd |
| 6. | NP5/65/259B | Prosiect arallgyfeirio fferm ar gyfer llety ymwelwyr i gynnwys 3 pod glampio, codi bloc toiledau/cawodydd newydd, gosod uned trin carthion a lle parcio | Cesailgwm Mawr, Bontddu. LL40 2TU | 05/11/24<br>Nid oes unrhyw wybodaeth wedi ei gyflwyno i ddangos y byddai'r datblygiad yn ffurfio rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol nac yn atodol i atyniad twristiaeth newydd neu bresennol, felly nid yw'r bwriad yn bodloni maen prawf i) | Mr Aled Lloyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cysylltiedig (cynnig diwygiedig i'r un a wrthodwyd o dan gais cynllunio NP5/65/259A) | | Polisi Datblygu 29 o Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Eryri.<br><br>By way of the scale of the proposal (3 Pods) within the open countryside, it is considered to be an inappropriate form of development which fails to enhance or conserve the 'Special Qualities' of the National Park and will have a detrimental impact on the character of the wider landscape. Therefore, the proposal conflicts with Development Policy 1: General Development Principles and Development Policy 2: Development and the Landscape. | |
| 7. | NP5/65/376C | Newid defnydd o gyn ysgol gynradd (Dosbarth Defnydd D1) i un ty preswyl fforddiadwy (Dosbarth Defnydd C3) | Ysgol y Clogau, Bontddu. LL40 2UA | 08/10/24<br>Oherwydd bod yr ymgeiswyr yn anfodlon neu'n methu â gwneud cytundeb Adran 106 i sicrhau fforddiadwyedd yr annedd a chyfyngu ar feddiannaeth yr annedd i berson sy'n bodloni'r meini prawf person lleol sydd angen tŷ neu'n cytuno i dalu swm cymudo er mwyn darparu tai ar gyfer meddiannaeth leol yn rhywle arall, mae'r cais hwn yn groes i bolisïau C, 9, G a 30 CDLlE a Chanllawiau Cynllunio Atodol 4. | Mr Aled Lloyd |
| 8. | NP5/65/L302D | Trosi ysgubor a'i ymestun yn annedd gan gynnwys gosod tanc septig, caniatad ol-weithredol ar fyfer trac mynediad a gwaith peirianyddol i greu llain caled/ man parcio o gwmpas yr adeilad, gosod carafan statig dros dro a adeiladu clwydfan ystlumod. | Wern y Pistyll, Bontddu. LL40 2UP | 07/10/24<br>Oherwydd nad yw'r ymgeisydd yn fodlon derbyn yr angen am amodau i sicrhau Cynllun Gwarchod Rhywogaeth a chwblhau adeilad clwydo ystlumod cydadferol cyn i unrhyw ddatblygiad arall ddechrau, ni fydd y cynnig yn lleihau'r risg o niwed neu aflonyddwch i rywogaethau a warchodir nac eu cynefin ac mae'n gwrthdaro â Pholisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol.<br><br>Oherwydd bod yr ymgeisydd yn anfodlon neu'n methu â gwneud cytundeb Adran 106 i sicrhau fforddiadwyedd yr annedd a chyfyngu ar feddiannaeth yr annedd i berson sy'n bodloni'r meini prawf person lleol sydd angen tŷ NEU | Mrs. Sara Thomas |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gytuno i dalu swm cymudo er mwyn darparu tai fforddiadwy mewn mannau eraill, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â Pholisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol, DP 9: Trosi a Newid Defnydd Adeiladau Gwledig, Polisi Strategol G: Tai a DP 30: Tai Fforddiadwy Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016- 2031. | |
| 9. | NP5/66/57A | Trosi adeilad amaethyddol segur yn anecs, ystafell cyfleustodau a gweithdy mewn cysylltiad â ffermdy cyfagos, ffurfio gardd ac ardal patio a gosod tanc septig a draenio cysylltiedig | Tyddyn Rhyddid, Llanbedr. LL46 2TL | 29/10/24<br>Oherwydd nad yw'r anecs arfaethedig yn atodol i'r prif annedd o ran ei raddfa a'i ddyluniad, mae'n gwrthdaro â Pholisi 14 y Cynllun Datblygu a Chanllawiau Cynllunio Atodol 11<br><br>Oherwydd nad oes unrhyw gyfiawnhad wedi ei ddarparu y byddai'r anecs bwriedig yn atodol i'r eiddo a adwaenir fel Tyddyn Rhyddid o ran defnydd, byddai ei wahaniad a diffyg cyswllt swyddogaethol i'r prif dŷ yn gyfystyr ag annedd newydd yng nghefn gwlad. Mae’r cynnig felly’n gwrthdaro â Pholisi 14 Cynllun Datblygu Lleol Eryri a Chanllaw Cynllunio Atodol 11 | Mr Aled Lloyd |
| 10. | NP5/75/75D | Adeiladu tai pâr, ynghyd â maes parcio a dreif mynediad | Cyn Orsaf Betrol Plas Dyfi, Cwrt, Pennal. SY20 9LB | 06/11/24<br><br>Mae'r safle mewn cefn gwlad agored lle mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad preswyl o'r fath oni bai bod lleoliad gwledig yn angenrheidiol ac yn gyfiawnhad. Byddai’r cynnig yn gwrthdaro â pholisïau SP A a SP C o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031 a Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 sy’n ceisio gwarchod cefn gwlad rhag datblygiadau amhriodol lle nad oes angen neu le nad oes cyfiawnhad dros leoliad gwledig a hefyd sicrhau bod datblygiadau yn cael eu datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy<br><br>Mae'r safle mewn lleoliad gwledig agored anghysbell ac amlwg o fewn parc cenedlaethol. Ystyrir y byddai'r datblygiad yn arwain | Mr David Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | at fath o ddatblygiad ysbeidiol a threfol sy'n amhriodol yn yr ardal hon. Mae’r cynnig felly’n gwrthdaro â pholisïau DP 1 a DP 6 Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031 a Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 sy’n ceisio gwarchod cymeriad, edrychiad a rhinweddau arbennig y parc cenedlaethol<br><br>Ni ddangoswyd bod y fynedfa arfaethedig yn dderbyniol ar sail diogelwch priffyrdd a bod rhyng-welededd digonol gyda'r A493. Mae’r cynnig felly’n gwrthdaro â pholisïau DP 1 Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031 a Pholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 a Nodyn Cyngor Technegol 18.<br><br>Nid yw'r cyflwyniad yn cynnwys digon o wybodaeth i ddangos y byddai'r datblygiad yn darparu budd net i fioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull mesul cam. Yn absenoldeb y wybodaeth hon, byddai’r cynnig yn mynd yn groes i ddarpariaethau polisïau SP A, SP D a DP 1 o Gynllun Lleol Eryri 2016 – 2031, Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12, a Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio, sy’n ceisio i sicrhau budd net i fioamrywiaeth<br><br>Ni ddangoswyd y gellir cael gwared ar ddraeniad budr o'r datblygiad yn foddhaol. Mae’r cynnig felly’n gwrthdaro â pholisïau DP 1 Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031<br><br>Mae Dŵr Cymru yn gwrthwynebu hyd nes y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei ail-leoli mewn perthynas â'r brif bibell ddŵr cyhoeddus a'r parth gwarchod angenrheidiol. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn annerbyniol gan y gallai gael effaith andwyol ar gyfanrwydd a chynnal a chadw'r brif bibell ddŵr mabwysiedig | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11. | NP5/78/LB412L | Addasu strwythur y to fflat ar yr estyniad cefn presennol i greu to brig | The Bungalow, Rhiw Goch Inn, Bronaber. LL41 4UY | 01/10/24<br><br>Ni chyflwynwyd digon o wybodaeth i ddisgrifio a gwerthuso effaith debygol y cynnig ar yr amgylchedd hanesyddol fel y gellir gwneud penderfyniad cwbl wybodus ar y cais hwn. Yn absenoldeb y wybodaeth hon, mae'r cais hwn yn methu â dangos na fyddai unrhyw effaith andwyol ar yr eiddo rhestredig cwrtil, y byngalo, nac ar y lleoliad ehangach a'r prif adeilad rhestredig Rhiw Goch. Mae'r cynnig felly'n methu â chydymffurfio â Pholisi Strategol Ff a Pholisi Datblygu 7, yn benodol maen prawf (iv), Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031.<br><br>Ni chyflwynwyd digon o wybodaeth i ddangos y byddai dull cam doeth, fel y manylir ym Mholisi Cynllunio Cymru (12fed Argraffiad, adran 6.4.11 – 6.4.16) yn cael ei dilyn i gynnal a gwella bioamrywiaeth a sicrhau manteision net ar gyfer bioamrywiaeth trwy Ddatganiad Seilwaith Gwyrdd a chynllun gwella bioamrywiaeth. Yn absenoldeb y wybodaeth hon, mae'r datblygiad yn groes i Bolisi Strategol D Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031, Polisi Cynllunio Cymru (12fed Argraffiad) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Adran 6. | Miss Eva Jones |

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad ar yr Apêl

---

gan Helen Smith BA (Anrh) BTP MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 23/10/2024

Cyfeirnod yr apêl: CAS-03396-M7B6K3

Cyfeiriad y safle: Tŷ'r Orsaf, Drws-y-nant, Rhyd-y-main, Dolgellau, LL40 2BE

---

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Mr a Mrs Emlyn a Catrin Roberts yn erbyn y penderfyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf NP5/54/583A, dyddiedig 31 Awst 2023, drwy hysbysiad dyddiedig 12 Ionawr 2024.
- Y datblygiad a gynigir yw atgyweirio ac ymestyn tŷ presennol.
- Gwnaed ymweliad â'r safle ar 1 Hydref 2024.

---

## Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

## Prif Fater

2. Y prif fater yw effaith y datblygiad arfaethedig ar gymeriad ac edrychiad yr annedd letyol a'i hamgylchoedd, o ystyried ei leoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri (PCE).

## Rhesymau

3. Mae'r apêl yn ymwneud â bwthyn cymedrol ar wahân sydd wedi'i leoli yng nghefn gwlad fel y'i nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl) ac sydd o fewn PCE. Mae'r annedd yn fwthyn carreg deniadol â blaen dwbl, gydag estyniad penty bach ar y wedd gefn. Er bod y safle wedi tyfu'n wyllt ac mae'r annedd yn wag ar hyn o bryd, mae iddi gymeriad traddodiadol dymunol, y mae llawer ohono yn deillio o'i golwg syml gymedrol a'i chysylltiadau hanesyddol â hen Orsaf Drws-y-nant a Rheilffordd y Bala a Dolgellau. Mae ei chymeriad traddodiadol a hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol at ei hamgylchoedd gwledig a nodweddir gan goetir a chaeau agored tonnog i'r de. Er bod golygfeydd ehangach o'r safle wedi'u sgrinio yn bennaf gan goetir i'r gorllewin a llystyfiant ar ei derfyn wrth ymyl ffordd yr A494, mae'r annedd yn weledol amlwg o'r lôn o flaen safle'r apêl ac o'i chyffordd â'r A494.

4. Nodaf fod cynllun yr apêl yn ailgyflwyniad yn dilyn penderfyniad blaenorol i wrthod caniatâd cynllunio, a bod yr apelydd wedi ceisio mynd i'r afael â'r rhesymau blaenorol dros wrthod. Er hynny, mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys estyniad deulawr a fyddai'n ymestyn ar draws mwyafrif lled cefn yr annedd. Byddai'n ymestyn cryn bellter o'r

wedd gefn a byddai ganddo do ar oleddf gyda thalcen. Er y byddai uchder yr estyniad yn is nag uchder y brif annedd, byddai ond ychydig yn is. Rwy'n sylweddoli, o ystyried ei chyflwr presennol, y byddai'r annedd yn elwa o gael ei hadnewyddu. Er hynny, byddai lled, hyd ac uchder y cynnig yn creu estyniad o raddfa a swmp sylweddol a fyddai'n dominyddu cefn yr annedd, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r annedd gymedrol bresennol. Byddai hyn yn anghydnaws ac yn niweidio cymeriad traddodiadol a hanesyddol yr annedd letyol yn sylweddol.

5. Er y byddai'r estyniad wedi'i leoli y tu cefn i'r annedd ac yn disodli penty llai o faint a ychwanegwyd, oherwydd y byddai'n ymestyn dros fwyafrif lled yr annedd, ac o ystyried ei leoliad amlwg, byddai ei raddfa a'i swmp yn weladwy yn erbyn cefndir y dirwedd wledig o amgylch. Ni fyddai'r defnydd o ddeunyddiau naturiol a chynhenid yn gwneud llawer i liniaru ei raddfa a'i swmp. O ganlyniad, byddai'r cynnig yn arwain at ddatblygiad anghydweddol a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i gymeriad ac edrychiad ei osodiad gwledig. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar rinweddau arbennig PCE.

6. Nodaf fod yr apelydd yn datgan y byddai'r gofod ychwanegol a fyddai'n cael ei greu gan y cynnig yn llai o faint nag ôl troed yr annedd bresennol, ac felly'n cydymffurfio â maen prawf (i) Polisi Datblygu 15 y CDLl. Mae'r Awdurdod yn anghytuno â hyn, a beth bynnag, hyd yn oed pe bai hyn yn wir, o ystyried fy nghanfyddiadau ar effaith y cynnig ar gymeriad ac edrychiad yr annedd a'i hamgylchoedd, byddai'r cynnig yn dal i fethu cydymffurfio â maen prawf (iii).

7. Deuaf i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad ac edrychiad yr annedd letyol a'i hamgylchoedd, ac y byddai'n methu cadw a gwella rhinweddau arbennig PCE. Mae hyn yn groes i Bolisi Datblygu 15 a Pholisi Datblygu 7 y CDLl, sydd â'r nod o sicrhau, ymhlith pethau eraill, nad yw cynigion ar gyfer addasu ac ymestyn adeiladau traddodiadol yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig a gosodiad yr adeilad neu nodweddion hanesyddol. Mae hefyd yn groes i Bolisi Datblygu 1 a Pholisi Strategol Ff y CDLl sydd, ymhlith pethau eraill, â'r nod o gadw a gwella rhinweddau arbennig a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol a gwarchod ei dirwedd hanesyddol, ei asedau treftadaeth, a'i dreftadaeth ddiwylliannol.

**Materion Eraill**

8. Nodaf y sylwadau cefnogol i'r cynnig a'r sylwadau o ran yr angen i gadw pobl leol yn y gymuned i'w galluogi i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy cymunedau gwledig. Er hynny, nid yw'r materion hyn yn gorbwyso'r niwed a nodaf i gymeriad ac edrychiad yr annedd letyol a'i hamgylchoedd, a fyddai'n arwyddocaol ac yn debygol o barhau am oesoedd i ddod. Felly, nid yw'r rhain yn newid fy mhenderfyniad.

**Casgliad**

9. Am y rhesymau a nodir uchod, ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, deuaf i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.

10. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adran 3 ac adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaf fod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*H Smith*

AROLYGYDD

Tudalen wag i adlewyrchu'r fersiwn Saesneg

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad ar yr Apêl

gan Helen Smith BA (Anrh) BTP MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 21-11-2024

Cyfeirnod yr apêl: CAS-03336-M7N1W2

Cyfeiriad y safle: Tir yng Nghoed Bryn Engan, Capel Curig, LL24 0EL

---

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan EE Ltd yn erbyn y penderfyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf NP4/13/258, dyddiedig 18 Ionawr 2023, drwy hysbysiad dyddiedig 12 Ionawr 2024.
- Y datblygiad a gynigir yw gosod mast cyfathrebu 35m o uchder gydag antenâu Gwasanaeth Ardal Estynedig (EAS) a Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN), cyfarpar ar y ddaear a datblygiad ategol.
- Gwnaed ymweliad â'r safle ar 1 Hydref 2024.

---

### Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

### Materion Gweithdrefnol

2. Mae cyfeiriad y safle ar y ffurflen gais yn wahanol i'r un ar yr hysbysiad o benderfyniad a'r ffurflen apêl. Rwyf wedi defnyddio'r olaf gan ei fod yn disgrifio'r safle yn fwy manwl gywir.
3. Ers penderfynu ar y cais cynllunio, mae Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu wedi'i ddirymu. Mae cyngor ar ddatblygiadau yn ymwneud â'r rhwydwaith ffonau symudol wedi'i nodi yn y Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol Cymru gan Lywodraeth Cymru.

### Prif Faterion

4. Y prif faterion yw effaith y datblygiad a gynigir ar:
    - dirwedd Parc Cenedlaethol Eryri (PCE);
    - buddiannau ecoleg a bioamrywiaeth; ac
    - a yw unrhyw niwed a nodwyd yn cael ei orbwyso gan ystyriaethau perthnasol eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad, argaeledd safleoedd amgen addas, a manteision y cynnig o ran y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) a'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN).

**Rhesymau**

*Effeithiau ar y dirwedd*

5. Mae safle'r apêl wedi'i leoli o fewn PCE ac o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 5: Y Moelwynion fel y'i nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APC): Tirweddau a Morluniau Eryri (CCA 07). Mae CCA 07 yn nodi nodweddion allweddol yr Ardal Cymeriad Tirwedd fel rhai sy'n cynnwys planhigfeydd conifferaidd ar raddfa ganolig, ar ffurf geometrig ar lethrau amlwg, gyda bandiau gwerthfawr o goetiroedd llydanddail lled-naturiol ar ochrau'r dyffryn, a thirwedd heddychlon olygfaol iawn sy'n cael ei gor-edrych gan yr Wyddfa. Mae cyrff mawr o ddŵr ar lawr y dyffryn, ac mae iddo ansawdd a chymeriad golygfaol rhagorol. Mae Polisi Datblygu 2 Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl) yn ceisio, ymhlith pethau eraill, sicrhau bod graddfa a dyluniad datblygiadau newydd yn parchu ac yn diogelu cymeriad, ansawdd a golygfeydd y dirwedd, yn enwedig mewn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Sensitif fel y'u diffinnir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae'r polisi hwn yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (PCC) sy'n datgan bod rhaid i Barciau Cenedlaethol gael y statws uchaf o ran eu diogelu rhag datblygiadau anaddas.

6. Mae safle'r apêl wedi'i leoli ger Llunnau Mymbyr, a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau dŵr mewn cysylltiad â Chanolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas-y-Brenin, gerllaw. I'r gogledd o'r safle mae ffordd yr A4086, sy'n llwybr poblogaidd ymhlith twristiaid o fewn PCE, ac i'r dwyrain mae Capel Curig, sy'n gyrchfan boblogaidd ymhlith ymwelwyr. O ganlyniad, mae'r ardal o amgylch safle'r apêl, gan gynnwys yr A4086, yn cael ei defnyddio'n helaeth gan ymwelwyr PCE. Oherwydd ei leoliad yn agos i'r llyn, gwelir y safle yng nghyd-destun y golygfeydd trawiadol o'r Wyddfa i'r gorllewin, ac yn wir, i lawer o ymwelwyr sy'n cyrraedd o'r dwyrain, dyma eu golygfa gyntaf o'r Wyddfa. Ac eithrio'r ganolfan awyr agored gyfagos a rhai llinellau trydan isel uwchben, mae ymyrraeth ddynol yn y dirwedd wledig agored yn gyfyngedig, yn enwedig yn y dirwedd i'r gorllewin o safle'r apêl i gyfeiriad Yr Wyddfa.

7. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol: Asesiad o Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd (CCA 13) APC yn cynghori bod yr Ardal Cymeriad Tirwedd hon yn sensitif dros ben i fastiau symudol, ac yn nodweddiadol, nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer datblygu mastiau symudol o fewn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol fel y'u nodir yn y CDLl, ac eithrio mastiau symudol cyfyngedig wedi'u cuddliwio a'u gosod a'u dylunio'n dda. Fodd bynnag, mae'n datgan y gall fod capasiti cyfyngedig y tu allan i'r ardaloedd hyn ar gyfer datblygu mastiau symudol sydd wedi'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda. Er bod safle ychydig y tu allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol, mae'r safle'n ffurfio rhan o osodiad yr Ardal o Harddwch Naturiol gyfagos.

8. Mae Polisi Datblygu 26 y CDLl yn caniatáu datblygiadau telathrebu ar yr amod, ymhlith pethau eraill, nad ydynt yn gwneud niwed mawr i amwynder gweledol a chymeriad tirwedd yr ardal. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Telathrebu a Mastiau (CCA 15) yn cefnogi'r polisi hwn ac yn rhoi arweiniad manwl am y modd y bydd APC yn ymdrin â datblygiadau telathrebu a mastiau a all effeithio ar dirwedd a chymeriad Eryri.

9. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys tŵr dellt 35m o uchder, a fyddai'n cynnal amrywiaeth o antenâu a dysglau, gyda chabinetau offer ar y ddaear wedi'u hamgylchynu gan ffens. Byddai'r cynnig yn cael ei leoli o fewn y blanhigfa sy'n ymestyn i lawr at ymyl Llynnau Mymbyr, ond yn agos at ei hymyl. O ystyried topograffi'r ardal a lleoliad y safle ar y llethr sy'n codi i'r de, byddai'r cynnig yn cael ei sgrinio i raddau helaeth rhag golygfeydd ehangach o gyfeiriad y de a'r de-ddwyrain. Er hynny, fel y dangosir yn narluniadau

ffotorealistig yr apelydd o gyfeiriad golygfannau allweddol, ac o'r hyn a welais fy hun, byddai'r tŵr, yr antenâu a'r dysglau yn codi ymhell uwchlaw uchder y coed o fewn y coetir a byddent i'w gweld yn glir, yn enwedig o'r A4086. Oherwydd uchder a lleoliad y mast, byddai'n torri'r gorwel wrth edrych arno o waelod y dyffryn o'r A4086 i'r ddau gyfeiriad.

10. Er y byddai rhai golygfeydd o'r mast i'w gweld yn erbyn cefndir y coed a'r llethr garw sy'n codi i'r de, byddai'r rhain yn olygfeydd agos a byddai'r mast yn dal i fod yn amlwg. Er gwaethaf ei liw gwyrdd a'i strwythur dellt, oherwydd ei leoliad ger llannerch yn y coed, byddai llawer o'r mast yn weladwy mewn golygfeydd ar draws y llyn o'r A4086. Nodaf y rhesymau pam y mae'n ofynnol i'r mast fod mor uchel gyda dyluniad dellt, ond er hynny, byddai ei olwg amlwg ddiwydiannol a modern yn groes dros ben i'r dirwedd wledig olygfaol iawn, ac yn amharu arni.

11. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol a wnaed gan yr apelydd yn dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol leol Gymedrol neu Fach yn gyffredinol ar rinweddau golygfaol, harddwch naturiol a llonyddwch cymeriad y dirwedd leol. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o'r farn ei bod yn debygol bod yr effeithiau hyn wedi'u tanamcangyfrif. Fel cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru o ran ardaloedd sy'n destun dynodiadau tirwedd cenedlaethol, rhoddaf bwys sylweddol ar eu sylwadau. O ystyried fy sylwadau ar leoliad, uchder a golwg y cynnig, a bod yr Ardal Cymeriad Tirwedd yn sensitif iawn i fastiau symudol, ac o ystyried sylwadau CNC, rwyf o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar y dirwedd. Byddai hyn yn achosi niwed difrifol i rinweddau arbennig PCE.

12. Sylwaf y bwriedir i'r coetir y byddai'r cynnig wedi'i leoli ynddo gael ei reoli yn y tymor hir drwy system goedamaeth fach ei heffaith a fyddai, yn y tymor canolig i'r tymor hir, yn disodli'r coed conwydd am goed collddail. Gan fy mod o'r farn y byddai effaith y cynnig yn annerbyniol er y byddai wedi'i sgrinio'r gan y coed conwydd presennol, byddai plannu coed collddail yn eu lle yn y dyfodol yn debygol o arwain at lai o sgrinio, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan na fyddai'r coed mewn dail. Byddai hyn yn debygol o wneud y cynnig yn fwy gweledol amlwg yn y dirwedd. Mae hyn yn cefnogi fy marn y byddai'r cynnig yn niweidio'r dirwedd.

13. Deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig yn achosi niwed arwyddocaol i dirwedd PCE ac y byddai'n methu cadw a gwella ei rinweddau arbennig. Byddai hyn yn groes i Bolisi Datblygu 26 a Pholisi Datblygu 2 y CDLl. Byddai hefyd yn groes i Bolisïau Strategol A, D, Ff, a Pholisi Datblygu 1 y CDLl, sydd â'r nod, ymhlith pethau eraill, o gadw a gwella rhinweddau arbennig a thirwedd hanesyddol PCE, ac yn groes i'r cyngor yn PCC a CCA 7, CCA 13 a CCA 15.

*Ecoleg a bioamrywiaeth*

14. Mae'r safle o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eryri (SoDdGA) a byddai'r cynnig yn cael ei leoli ger llannerch o fewn y planhigfa goetiroedd. Byddai'r cynnig yn arwain at golli ardal fechan o goed conifferaidd, mwsogl, cennau, rhedyn, a chlogfeini. Nod PCC yw diogelu a gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth a gwella gwytnwch cyffredinol ecosystemau trwy ddull fesul cam. Mae hefyd yn nodi rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad mewn SoDdGA nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle ac yn nodi mai dim ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol y dylid cynnig datblygiad mewn ardaloedd o'r fath a dim ond pan ystyrir bod datblygiad yn briodol ac nad yw'n debygol o niweidio SoDdGA a bod cytundeb eang a chlir ar gyfer lliniaru a gwella fel rhan o gynllun datblygu. Mae polisïau SP D, SP A a DP1 y CDLl yn gyson â PCC.

15. Mae'r Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) yn asesu'r amodau ecolegol presennol ac yn cynnwys asesiad rhagarweiniol o arwyddocâd tebygol effeithiau ecolegol y datblygiad

arfaethedig. Rwy'n nodi canfyddiadau'r PEA a sylwadau CNC o ran yr effeithiau tebygol ar y SoDdGA. Serch hynny, o ystyried fy nghasgliadau ar effeithiau tirwedd y cynnig ac ystyried safleoedd eraill, a nodir isod, nid wyf o'r farn bod amgylchiadau cwbl eithriadol wedi cael eu dangos yn yr achos hwn ac mae'r cynnig yn methu cydymffurfio â dull fesul cam PCC.

16. O ganlyniad, ac yn sgil rhagdybiaeth PCC yn erbyn datblygiad amhriodol mewn SoDdGAs, deuaf i'r casgliad bod y cynnig yn methu dangos na fyddai'n cael effaith niweidiol ar fuddiannau ecolegol a bioamrywiaeth, yn groes i amcanion PCC a SP D, SP A, a DP1 y CDLl.

*Ystyriaethau perthnasol eraill*

17. Mae PCC yn cefnogi darparu cyfathrebiadau digidol ond mae'n cydnabod y bydd effaith seilwaith telathrebu symudol newydd ar ei mwyaf mewn tirweddau sensitif ac ardaloedd dynodedig eraill a dylid ei gynllunio'n ofalus. Mae'n cydnabod mai'r ardaloedd hyn, sy'n rhai gwledig eu natur yn bennaf, sy'n cael eu heffeithio'n economaidd ac yn gymdeithasol gan ddarpariaeth gyfyngedig a bod cynllunio rhagweithiol ond ystyriol felly yn hanfodol i sicrhau'r ddarpariaeth orau, gan gynnal cymeriad yr ardaloedd arbennig hyn. Adlewyrchir hyn ym Mholisi 13 Cymru’r Dyfodol sy'n cefnogi darparu seilwaith cyfathrebu digidol ond yn cydnabod y dylid cynllunio seilwaith mewn ardaloedd gwledig yn ofalus i liniaru unrhyw effaith ar dirweddau dynodedig.

18. Nid wyf yn amau yr angen am y cynnig o ystyried tystiolaeth yr apelydd ynghylch diffyg darpariaeth ESN a SRN yn yr ardal, ac rwy'n rhoi pwys sylweddol ar hynny. I gefnogi'r apêl, mae'r apelydd wedi ystyried nifer o safleoedd amgen. Mae’r safleoedd amgen hynny wedi cael eu hystyried a'u diystyru gan yr apelydd am resymau amrywiol gan gynnwys ar sail darpariaeth, materion yn gysylltiedig â rhannu mastiau, ac o ganlyniad, yr angen i ailddylunio, diffyg gorchudd coed a sgrinio naturiol gan arwain at effaith weledol bosibl ar yr ardal, a diffyg lle / mynediad. Rwy'n cydnabod, o ystyried cyfyngiadau topograffig yr ardal a'r dirwedd wledig agored, bod lleoliadau cyfyngedig o fewn ardal chwilio'r safle a allai ddarparu lleoliad addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig o ran tirwedd.

19. Fodd bynnag, diystyrwyd rhai o'r safleoedd amgen hyn, yn enwedig y rhai sy'n agosach at bentref Capel Curig, y Ganolfan Awyr Agored ac sy’n agosach at fastiau eraill, wrth i'r apelydd ddod i'r casgliad y byddai angen mast o uchder a swmp sylweddol i gyflawni'r ddarpariaeth ofynnol. Serch hynny, nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth o ran yr uchder a'r swmp tebygol y byddai eu hangen a'u heffaith weledol debygol ar y dirwedd ac felly ni allaf ddod i farn ar y niwed cysylltiedig â'r dewisiadau amgen hyn a ph’un a fyddent yn waeth na chynnig yr apêl. O ganlyniad, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, nid wyf yn fodlon nad oes dewisiadau rhesymol amgen a allai arwain at lai o niwed na'r cynnig.

20. Byddai'r mast arfaethedig yn cynnwys cyfarpar i gefnogi'r ESN gyda'r prif amcan o ddarparu darpariaeth ar gyfer y gwasanaethau brys ar hyd y rhan benodol o'r A4086 a byddai'n darparu darpariaeth i 4 Gweithredwr Rhwydwaith Symudol mewn ardal sydd wedi'i nodi fel Man Rhannol Heb Ddarpariaeth (Partial Non Spot) ar y cyd â'r SRN. Rwy'n cydnabod y byddai'r cynnig yn darparu cysylltedd a gwasanaeth symudol i'r gwasanaethau brys, busnesau, y gymuned wledig ac ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol. Yn benodol, byddai darparu darpariaeth ESN yn yr ardal wledig hon yn darparu budd i'r cyhoedd, yr wyf yn rhoi pwys sylweddol arno.

21. Serch hynny, o ystyried fy nghanfyddiadau ar safleoedd amgen, rwy'n gweld nad ydynt yn gorbwyso'r niwed i rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri, a fyddai'n arwyddocaol ac yn debygol o bara am byth, yr wyf yn rhoi pwys sylweddol arno. Rwy'n

dod i'r casgliad nad oes unrhyw ystyriaethau materol sy'n gorbwyso'r niwed yr wyf wedi'i nodi.

22. Mae'r apelydd wedi tynnu fy sylw at nifer o apeliadau eraill am ddatblygiadau telegyfathrebu, a oedd yn cynnwys seilwaith ESN mewn Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys yn NPA Dartmoor ac NPA South Downs. Fodd bynnag, roedd 3 o'r apeliadau hynny'n ymwneud â mastiau polyn 15m ac un yn ymwneud â mast dellt 25m a daeth yr Arolygwyr i'r casgliad y byddai'r niwed i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal a'r dirwedd wledig naill ai'n niwtral, yn gyfyngedig neu'n ddibwys a bod y manteision sylweddol i'r cyhoedd yn fwy na'r niwed a nodwyd. Nid wyf o'r farn bod yr amgylchiadau hyn yr un fath â'r cynnig apêl ac felly rwyf wedi ystyried yr apêl ar sail ei rhinweddau ei hun.

**Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliad**

23. Byddai'r cynnig yn achosi niwed sylweddol i dirwedd Parc Cenedlaethol Eryri yr wyf yn rhoi pwys sylweddol arno. Rwyf wedi cydbwyso'r niwed hwn yn erbyn budd y cyhoedd o ddarparu seilwaith symudol i gefnogi'r ESN a'r SRN, ei fanteision cysylltiedig a'r angen am seilwaith o'r fath. Mae manteision y cynnig yn sylweddol; fodd bynnag, yn fy marn i, mae'r niwed i fuddiannau tirwedd ac ecoleg a bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri yn gorbwyso buddion y cynnig.
24. Am y rhesymau a nodir uchod, ac o ystyried yr holl faterion a godwyd, deuaf i'r casgliad y dylid diystyru'r apêl.
25. Wrth ddod i fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwy'n ystyried bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf drwy ei chyfraniad at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*H Smith*

INSPECTOR